nofitstate circus



# Syrcas Saff

**Dogfen gyfeirio ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn Sector y Syrcas yng Nghymru**

**Chwefror 2020**


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys:


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad:** | **3** |
| **Pennod 1. Pam y mae Iechyd a Diogelwch yn Bwysig** | **5** |
| **Pennod 2. Meithrin Diwylliant** | **8** |
| **Pennod 3. Adeiladau a Safleoedd** | **17** |
| **Pennod 4. Rhoi Gair ar Bapur** | **32** |
| **Pennod 5.Cydymffurfio â'r Gofynion o ran COVID** | **34** |
| **Diolchiadau** | **44** |

# Cyflwyniad.

## Cyflwyniad i Iechyd a Diogelwch yn y syrcas

Yma, fe geisiwn fynd i'r afael â rhai o'r paradocsau sy'n ymwneud diogelwch yn y syrcas ac ystyried beth y gallwn ei wneud i leihau'r peryglon mewn gweithgaredd sy'n beryglus yn ei hanfod. Pe bai'n fater du a gwyn, byddai'r ateb yn syml… Fyddai dim hawl cynnal syrcas. Mater i ni yw penderfynu beth sy'n ddiogel a bod yn barod i gymryd cyfrifoldeb am y canlyniadau.

Mae'n haws o lawer gydag artistiaid syrcas proffesiynol oherwydd mae'n rhesymol disgwyl eu bod nhw'n ymwybodol o'u gallu technegol a'u profiad a'u bod yn gallu asesu'r risg sydd ynghlwm wrth eu gweithgareddau ac ymddwyn yn briodol.

Wrth weithio gydag amaturiaid, dysgwyr yn y gymuned a phobl ifanc, mae'n fater mwy cymhleth o lawer ac mae angen i'r sefydliad gymryd mwy o gyfrifoldeb a bod yn fwy atebol. Yma, byddwn yn canolbwyntio mwy ar y maes hwn gan ein bod wedi gweld bod angen arweiniad ac eglurdeb yn y sector hwn sy'n datblygu'n gyflym ond nad yw'n cael ei reoleiddio.

Ni all y wybodaeth hon fod yn hollol bendant oherwydd nid yw'r un ateb yn gweddu i bob sefyllfa. Y cyfan y gallwn ni obeithio'i wneud yw dwyn ynghyd y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth berthnasol a rhoi'r arweiniad a'r hyder i chi i wneud eich penderfyniadau gwybodus eich hunan neu'r doethineb a'r awydd i ofyn am help.

Caiff y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ei hysgrifennu ar gyfer diwydiannau lle mae sefyllfaoedd yn ddu a gwyn, a lle gwneir ymdrech i osgoi risg. Mae'r ffordd y caiff y ddeddfwriaeth ei chymhwyso i'n diwydiant ni yn agored i'w dehongli ond mae arnom gyfrifoldeb cyfreithiol a gallem gael ein beio pe bai rhywbeth yn mynd o'i le.

## Dyma'r pedair allwedd i lwyddiant:

1) Creu amgylchedd diogel gydag offer diogel

2) Creu diwylliant iechyd a diogelwch lle mae pawb yn cymryd cyfrifoldeb am hynny.

3) Cael dogfennau da, clir sy'n:

   a) dweud wrth y tîm beth yw eu cyfrifoldebau a'u methodolegau ar gyfer lleihau risg

   b) dangos ffordd glir o feddwl ac arferion da os cewch eich dal yn gyfrifol ryw bryd

4) Adolygu polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd mewn ymgynghoriad â'ch tîm a'u diweddaru yn ôl yr angen. Datblygu'r diwylliant, meithrin y gefnogaeth.

Yn aml iawn, defnyddir Iechyd a Diogelwch fel rheswm dros ddweud "NA" ac, weithiau, mae hynny'n angenrheidiol. Ond dylid ei ddefnyddio hefyd fel ffordd o ddweud "Ie" ac o gynnig y fframwaith i wneud rhywbeth mewn ffordd mor ddiogel ag y bo modd.

## Wedi cymhwyso neu yn gymwys?

Ychydig iawn o gymwysterau sy'n ymwneud â dysgu gweithgareddau syrcas neu redeg canolfan hyfforddi. Mae'r Gyfraith yn sôn am unigolion sydd â chymwysterau neu sy'n gymwys (qualified or competent). Mae angen ystyried mater asesu cymhwysedd, pwy sy'n gymwys i asesu cymhwysedd a sut y gellir dangos tystiolaeth o hynny. Gall gwybodaeth, profiad a synnwyr cyffredin fynd â chi'n bell ond, ar ôl gwneud y gwaith cartref, dylech fod yn ddigon hyderus i wybod eich bod yn gwneud popeth y gallwch i'w gadw mor ddiogel ag y bo modd ac, yn y pen draw, dyna'r cyfan y gallwch ei wneud.

Os cewch chi'ch siwio gan rywun oedd yn chwarae o gwmpas yn y dosbarth, yn peidio â gwrando ar yr athrawon, ac a dorrodd eu pigwrn, fe fyddwch yn falch iawn bod yr holl waith papur gennych – yr asesiadau cymhwysedd, asesiadau risg, datganiadau dull, ffurflenni adrodd am ddamweiniau, ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, cofnodion archwilio offer ac yn y blaen. Gallai arbed llawer o arian i chi a, phe bai rhywbeth mwy difrifol yn digwydd, o leiaf byddwch yn gwybod eich bod wedi gwneud popeth y gallech ac nad ydych chi ar fai. Mae ar bawb angen cysgu'r nos.

Ac ar y nodyn llawen hwnnw, pob dymuniad da i chi.

Yn awr, mae gennym gyfres o benodau wedi'u paratoi gan:

- Matt Davies, Rheolwr Cynhyrchu a Swyddog Iechyd a Diogelwch NoFit State
- Katie Parry, Pennaeth Rhaglen Gymunedol NoFit State
- Alison Woods, Prif Weithredwr NoFit State

## Tom Rack

Cyfarwyddwr Artistig, NoFit State

# Pennod Un.

## Pam y mae Iechyd a Diogelwch yn Bwysig

Mae gan bawb ohonom hawl i weithio mewn lle diogel, gan wybod bod yr amgylchedd yn gymharol ddiberygl a di-risg, heb fygythiad i'n diogelwch. Caiff syrcas ei gyfrif yn weithgaredd risg mawr yn ei hanfod, ond nid yw hyn yn golygu na ellir rheoli'r risgiau'n briodol.

A chithau'n gyflogwr, rhaid i chi warchod eich gweithwyr (ac eraill) rhag cael eu hanafu neu fynd yn sâl oherwydd y gwaith. Os na wnewch hynny, gallech gael dirwyon trwm.

Rhaid i gyflogwyr ddarparu:

- Lle diogel i weithio
- Systemau gweithio diogel
- Offer gwaith addas a diogel sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda
- Trefniadau llesiant digonol
- Gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth

https://www.hse.gov.uk/toolbox/workplace/facilities.htm

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

Mae cyfraith trosedd a chyfraith sifil yn berthnasol i iechyd a diogelwch yn y gweithle. Gellir eich dal yn atebol am y ddau.

- Gall rheoleiddiwr fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) neu awdurdod lleol gymryd camau yn eich erbyn o dan gyfraith trosedd. Gallai hyn arwain at ddirwy neu garchar.
- Gall y sawl yr effeithiwyd arno hawlio iawndal yn eich erbyn o dan gyfraith sifil.

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/law/index.htm

## Deddfwriaeth:

Yn y Deyrnas Unedig, mae cyfraith iechyd a diogelwch yn cynnwys:

- Deddfau Seneddol
- Offerynnau statudol (rheoliadau)

Y prif ddarn o ddeddfwriaeth yw Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (HSWA) gydag addasiadau arwyddocaol a wnaed yn 2008. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi strwythur a fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoliadau a chyngor iechyd a diogelwch ac fe'i gelwir yn ddeddfwriaeth sylfaenol.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/contents

## Rheoliadau:

Mae rheoliadau yn rhan o'r gyfraith hefyd. Is-ddeddfwriaeth ydynt ac mae'n ofynnol iddynt fod yn gysylltiedig â darn neilltuol o ddeddfwriaeth sylfaenol. Dwy enghraifft nodweddiadol yn ein diwydiant ni fyddai:

- Lifting Operations and Lifting Equipment Regulations 1998 (LOLER)

  https://www.hse.gov.uk/work-equipment-machinery/loler.htm
- Work at Height Regulations 2005, fel y'u diwygiwyd 2007

  https://www.hse.gov.uk/work-at-height/

## Codau Ymarfer Cymeradwy:

Mae Codau Ymarfer Cymeradwy (ACoPs) yn cynnig enghreifftiau ymarferol o arferion da. Maent yn cynghori sut i gydymffurfio â'r gyfraith trwy gynnig cyngor ar yr hyn sy'n 'rhesymol ymarferol'. Gall termau fel 'addas' ('suitable') a 'digonol' ('sufficient') ddangos beth sy'n ofynnol o dan amgylchiadau neilltuol. Mae gan ACoPs statws cyfreithiol arbennig. Os caiff cyflogwyr eu herlyn am dorri cyfraith iechyd a diogelwch, ac y profir nad ydynt wedi dilyn darpariaethau perthnasol y Cod Ymarfer Cymeradwy, gall llys ddyfarnu eu bod ar fai os na allant ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r gyfraith mewn rhyw ffordd arall neu fod camau wedi'u cymryd i wneud y gwaith yr un mor ddiogel. Dyma rai enghreifftiau:

- Gweithio ar uchder mewn theatrau: ABBT Code of Practice for use of Tallescopes for working at height in theatres 2014

https://www.tallescope.co.uk/wp-content/uploads/2018/04/Code-of-practice-for-use-of-Tallescopes-for-working-at-height-in-theatres-Complete.pdf

## Canllawiau:

Gall canllawiau fod yn berthnasol i un diwydiant penodol neu gallant gyfeirio at broses neu dasg a ddefnyddir mewn nifer o ddiwydiannau. Prif bwrpas y canllawiau yw dehongli'r gyfraith, helpu pobl i ddeall beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud a helpu pobl i gydymffurfio â'r gyfraith. Dyma rai enghreifftiau:

- Sound Advice: Control of noise at work in music and entertainment

  https://www.hse.gov.uk/pubns/priced/hsg260.pdf

## Beth mae'n rhaid i mi ei wneud?

O dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HSWA):

'It shall be the duty of every employer to ensure, so far as is reasonably practicable, the health, safety and welfare of all his employees'

Mae'r gair 'shall' yn golygu ei bod yn ddyletswydd absoliwt: Nid oes amddiffyniad. Mae'n rhaid i'r cyflogwr ei wneud!

Mae 'so far as is reasonably practicable' ('cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol') yn cyfeirio at ddealltwriaeth y cyflogwr ei hunan o risg benodol a'r camau y mae wedi'u cymryd ymlaen llaw i'w rheoli. Er enghraifft, pe bai cyflogwr yn gofyn i rywun weithio gyda sylwedd gan wybod ei fod yn beryglus, heb ddarparu PPE digonol, ni fyddai hynny'n cael ei gyfrif yn ofal rhesymol.

Nid oes raid i rywun gael niwed cyn y gellir dyfarnu bod trosedd wedi'i chyflawni, dim ond bod risg o niwed.

Y peth pwysicaf y gallwch ei wneud yw rheoli risg yn y gweithle. Nid yw gwaith papur ar ei ben ei hunan yn ddigon i brofi'ch bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Bydd meithrin diwylliant Iechyd a Diogelwch yn eich sefydliad yn fwy effeithiol o lawer na dim ond cael mynyddoedd o bapurau i gefnogi'ch tystiolaeth bod gennych staff cymwys a medrus.

## Cyfeiriadau:

- Lle diogel i weithiio

  https://www.hse.gov.uk/toolbox/workplace/facilities.htm

- Iechyd a diogelwch yn y gwaith: cyfraith trosedd a chyfraith sifil

  https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/law/index.htm

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974

  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/contents

# Pennod Dau.

## Meithrin Diwylliant

Mae dyletswydd ar gyflogwyr i warchod iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr a phobl eraill y gall eu busnes effeithio arnynt. Rhaid i gyflogwyr wneud beth bynnag sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau hyn.

www.hse.gov.uk/workers/employers.htm

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol? Wel, mae'r HSE yn diffinio sawl ffactor sy'n cyfrannu at ddarparu amgylchedd diogel yn y gwaith.

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/index.htm

Y peth pwysicaf yw ei fod yn rhoi sicrwydd ac atebolrwydd i'r cyflogwr a'r cyflogai. Mater i chi a'ch sefydliad yw penderfynu sut rydych yn dewis staffio a rheoli'r mesurau hyn. Fodd bynnag, mae strwythur iechyd a diogelwch clir a chryno y gall y gweithwyr ei ddeall ac uniaethu ag ef yn hollbwysig er mwyn meithrin diwylliant cadarnhaol trwy'r sefydliad cyfan:

### Penodi person cymwys:

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/gettinghelp/index.htm

A chithau'n gyflogwr, rydych yn gyfrifol am benodi person neu bersonau cymwys i'ch helpu i gyflawni eich dyletswyddau cyfreithiol ym maes iechyd a diogelwch. Gallai hyn fod yn rhywun sydd â hyfforddiant

iechyd a diogelwch, profiad yn y gwaith neu, yn ddelfrydol, gyfuniad o'r ddau beth. Byddent yn gyfrifol am fonitro, gwerthuso a, pan fo angen, cyflwyno mesurau i warchod y staff a'r cyhoedd rhag niwed. Mae nifer o ddarparwyr hyfforddiant ar gael ond dyma rai o'r rhai mwyaf cydnabyddedig:

IOSH: https://www.britsafe.org/training-and-learning/find-the-right-course-for-you/what-is-iosh/

NEBOSH: https://www.nebosh.org.uk/home/

Yma, yn NoFit State, mae gennym Bwyllgor Diogelwch sy'n cynnwys pobl mewn swyddi uchel neu benaethiaid adrannau. Maent yn mynd ati'n rheolaidd i werthuso gwahanol faterion a phryderon sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Mae hynny'n golygu bod nifer o bobl sydd â phrofiad arbenigol yn gallu cyfrannu at y polisi cyffredinol ac mae'n annog mwy o bobl i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a rhai pobl eraill.

Mater i'r sefydliad yw a ydych yn dewis cyfarfod bob wythnos, bob mis neu bob chwarter. Mae'n dibynnu pa mor gyson y mae angen gwerthuso risg y gweithgareddau y mae'n ymgymryd â nhw. Fodd bynnag, y peth allweddol yw bod y pynciau a drafodir yn cael eu hadolygu a'u monitro ac, os oes angen, bod unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud a'u cofnodi ar-lein fel y gellir cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Os teimlwch nad oes gan eich sefydliad bobl gymwys yn y gweithlu i reoli iechyd a diogelwch yn fewnol (neu os teimlwch bod hynny'n achosi gormod o wrthdaro buddiannau) dylech ystyried defnyddio ymgynghorydd neu gynghorydd. Fodd bynnag, cofiwch y gall hyn fod yn gostus ac y gallai ddigio'r gweithlu. Gallai'r gweithwyr deimlo na chawsant ddweud eu barn am y ffordd orau i reoli eu gweithleoedd yn effeithiol.

## Mesur cymhwysedd:

Mae hyn yn anodd oherwydd gall rhywun ymddangos yn brofiadol (ac felly'n gymwys) ond bod yn llai gwrth-risg na rhywun arall llai gwybodus neu lai profiadol ond sy'n eithriadol o ofalus. Mae angen sgiliau arbennig i ganfod ateb doeth a phragmatig i fater a all berthyn mor benodol i syrcas ond dyma rai pwyntiau hawdd i gyfeirio atynt wrth geisio mesur cymhwysedd:

**SKATE**

- Sgiliau (Skills)
- Gwybodaeth (Knowledge)
- Agwedd (Attitude)
- Hyfforddiant (Training)
- Profiad (Experience)

Bydd defnyddio SKATE yn eich helpu i weld os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn ddiogel. Fel y soniwyd wrth drafod cymhwysedd (competency), nid yw pawb yn union yr un peth ac felly dylech ystyried sut y mae gan wahanol bobl ofynion gwahanol. Gallai hyn gynnwys:

- Gweithwyr ifanc
- Merched beichiog
- Pobl ag anableddau

Bydd yn help i chi gyfeirio at PETE wrth ystyried y gwahanol ffactorau a allai effeithio ar y risg:

Pobl (People)

Offer (Equipment)

Tasg (Task)

Amgylchedd (Environment)

Ystyriwch sut y mae gan wahanol bobl ofynion gwahanol a sut y gallent ymateb yn wahanol i dasg neu amgylchiadau. Gallai hyn gynnwys:

- Gweithwyr ifanc
- Merched beichiog
- Pobl ag anableddau

## Penodi Swyddog Covid:

Mae angen Swyddog Covid penodedig er mwyn sicrhau bod eich sefydliad yn ymateb i'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ynghlwm wrth y cyngor a'r rheoliadau cyfredol. Gall eich Swyddog Iechyd a Diogelwch wneud y gwaith ond, yn dibynnu ar faint a chymhlethdod eich gweithgareddau, mae angen mynd ati'n ofalus i gynllunio, gan fod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth gyfredol a'u deall ac felly gall fod angen rhywun ychwanegol:

- Gofalwch eich bod yn deall rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru am COVID-19
- Gofalwch fod gennych gynllun sy'n esbonio sut y bwriadwch fynd ati i ailgychwyn y gweithgareddau
- Cynhaliwch broses drwyadl i asesu'r risg er mwyn profi a yw'r cynlluniau hyn yn ymarferol
- Darllenwch wefannau cymdeithasau arbenigol a thechnegol yn y maes
- Soniwch am eich cynlluniau a'ch bwriadau wrth bobl y byddwch yn cydweithio â nhw, yn cysylltu â nhw neu'n rhannu cyfleusterau â nhw
- Gofalwch eich bod yn deall yn iawn beth mae'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol a chorfforol yn ei olygu ar gyfer y gweithgareddau y bwriadwch eu cynnal
- Gofalwch fod y rhai a fydd yn arwain a/neu yn cydlynu'r gweithgareddau'n cael yr holl hyfforddiant angenrheidiol
- Dynodwch rywun sy'n ddigon uchel yn eich sefydliad i fod yn gyfrifol yn benodol am sicrhau bod pob cam angenrheidiol i ddiogelu rhag COVID yn cael ei gymryd. Dylai'r holl weithwyr eraill wybod mai'r person hwnnw yw'r "Swyddog COVID"

## Paratoi Polisi Iechyd a Diogelwch:

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/policy/index.htm

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob busnes gael polisi ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn y sefydliad.

Os yw'n cyflogi pump neu fwy o bobl, mae'n rhaid iddo fod ar ffurf dogfen ysgrifenedig. Yn gyffredinol, mae'n ddoeth cael tystiolaeth ysgrifenedig o'ch polisïau beth bynnag yw maint y busnes.

Weithiau, hefyd, mae'n fuddiol cynnal sgyrsiau am weithgareddau sy'n newydd neu'n ddieithr fel y gall y gweithlu ofyn cwestiynau a chodi pryderon am rywbeth newydd. Y peth pwysig am hynny yw ei fod yn sicrhau bod y gweithlu'n hyderus eich bod yn rheoli unrhyw risg bosibl.

Dylai'ch polisi gynnwys tri maes:

- Datganiad o Fwriad
- Cyfrifoldebau iechyd a diogelwch
- Trefniadau iechyd a diogelwch

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/policy/how-to-write-your-policy.htm

Nid oes rhaid i'r polisïau hyn fod yn hir a chymhleth ac mae'n bwysig i chi ysgrifennu beth sy'n gweithio orau i'ch sefydliad chi a'i weithwyr – y dogfennau cliriaf a mwyaf cryno fel y gallwch chi a'ch gweithwyr eu deall a'u derbyn. Mae enghraifft o bolisi ein sefydliad ni yn y bennod Rhoi gair ar bapur.

## Rheoli risgiau (RAMS):

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/risk/index.htm

Mae templedi i'w gweld yn y bennod Rhoi gair ar bapur, felly ystyriwch beth sy'n gweithio orau ar gyfer y gweithgaredd neu'r amgylchedd rydych yn ei asesu a chofiwch mai'r peth gorau yw edrych ar reoli risg fel proses cam wrth gam:

- Pennu beth yw'r peryglon
- Asesu'r risgiau
- Rheoli'r risgiau
- Cofnodi'ch canfyddiadau
- Adolygu'r dulliau rheoli

Gall defnyddio SKATE eich helpu i ganfod rhywbeth nad yw'n ymddangos yn ddiogel. Fel y soniwyd wrth drafod cymhwysedd (competency), nid yw pawb yn union yr un peth ac felly dylech ystyried sut y mae gan wahanol bobl ofynion gwahanol. Gallai hyn gynnwys:

- Gweithwyr ifanc
- Merched beichiog
- Pobl ag anableddau

Ceisiwch ganfod y risg a'i dileu (neu o leiaf ei rheoli). Ar ôl cymryd y camau priodol, mae'n bwysig eu cofnodi ac, yn nes ymlaen, eu hadolygu oherwydd efallai na fyddant yn dal yn effeithiol neu'n berthnasol. Siaradwch â'ch gweithwyr. Peidiwch â dibynnu ar y gwaith papur yn unig. Trafodwch gyda nhw yn rheolaidd oherwydd mae'n debygol y byddan nhw'n gwybod am 'near misses' nad oeddech chi'n

gwybod amdanynt.

Cadwch gofnodion damweiniau a salwch a chyfeiriwch atynt gan y gallant eich helpu i ganfod risgiau llai amlwg. Gall pethau syml fel cadw'r lle'n lân ac yn daclus fod yn help mawr i atal damweiniau cyffredin fel syrthio, llithro a baglu.

A chofiwch nad oes disgwyl i chi ddileu pob risg, ond mae angen i chi wneud popeth sy'n 'rhesymol ymarferol' i warchod pobl rhag niwed. Mae hyn yn golygu cydbwyso lefel y risg yn erbyn y camau y mae angen eu cymryd i reoli'r wir risg o ran arian, amser neu drafferth.

Ystyriwch ddefnyddio ymgynghorydd neu gynghorydd os teimlwch na allwch ysgrifennu Datganiadau Dull Asesu Risg (RAMS) effeithiol yn fewnol. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer pethau fel asesiadau tân lle byddai cwmni arbenigol yn y maes yn asesu'r risg ac yn paratoi adroddiad ac argymhellion. Wrth gael adroddiad annibynnol gallwch sicrhau eich bod wedi cymryd y camau gorau posibl i ganfod ac asesu'r risgiau mwyaf neu fwyaf cymhleth. Fodd bynnag, cofiwch fod arnoch ddyletswydd gyfreithiol o hyd i sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli, eu cofnodi a'u hadolygu rhag ofn y bydd y sefyllfa'n newid.

## Asesiadau Risg a COVID:

Yn awr, bydd angen cynnwys asesiadau risg COVID ar gyfer holl weithgareddau eich sefydliad. Dylai hyn gynnwys y meysydd isod ac eraill yn ôl yr angen:

- Y risg o drosglwyddo naill ai trwy aerledu neu ar arwynebau
- Camau i gadw pellter cymdeithasol (corfforol) gan ystyried maint a math yr adeilad neu'r lleoliad
- Ymddygiad y gynulleidfa/bobl sy'n bresennol a'r camau a gymerir i leihau'r risgiau (e.e. yfed alcohol, mannau cul lle mae pobl yn dod at ei gilydd yn y mynedfeydd/allanfeydd ac ati).

## Ymgynghori â'r gweithlu:

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/consult.htm

Mae ymgynghori â'r gweithlu ynghylch iechyd a diogelwch bob amser yn fuddiol. Mae gweithwyr bob amser yn gwerthfawrogi cael cyfle i drafod ffyrdd o reoli iechyd a diogelwch ac, o bosib, i ddylanwadu ar y penderfyniadau. Yn Nofit State, mae gan bob gweithiwr gyfle i siarad ag un o'r swyddogion iechyd a diogelwch, ac rydym yn cynnwys iechyd a diogelwch yn ein cyfarfodydd tîm wythnosol cyffredinol. Gall y trafodaethau fod mor ffurfiol neu anffurfiol ag y dymunwch. Gall rhai sefydliadau fod yn ddigon bach i drafod gyda'i gilydd yn uniongyrchol. Yn y pen draw, efallai na fydd y gweithlu bob amser yn hapus â'r cyfyngiadau Iechyd a Diogelwch a osodir arnynt, ond maent yn fwy tebygol o ddeall pam y gwneir hynny os ymgynghorwyd â nhw ymlaen llaw.

## Rhoi gwybodaeth a hyfforddiant:

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/training/index.htm

Mae sicrhau bod eich timau (waeth pa mor fach) yn cael gwybod beth yw'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol yn ffordd dda o sicrhau bod eich staff yn dal i fod yn gymwys. Efallai bod gennych unigolyn profiadol sydd wedi bod ym myd syrcas ers amser maith ac sydd wedi datblygu arferion gwael, neu wedi gwneud rhywbeth yn yr un ffordd ers y dechrau'n deg. Gall fod yn gwneud tasg mewn ffordd hollol ddiogel ond os nad yw'n cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol, gallai fod yn broblemus yn yr hinsawdd presennol lle mae pobl mor barod i ymgyfreitha pe bai damwain yn digwydd.

Mae hefyd yn gyfle iddynt godi pryderon am eu cymhwysedd neu eu profiad nhw eu hunain ac i ddweud a ydynt yn gyfforddus â'r tasgau y maent yn eu gwneud. Gall fod angen rhoi hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau cymhwysedd. Y peth da yw bod cael tîm mewnol sgilgar iawn bob amser yn talu'r ffordd yn y tymor hir.

Mae llawer o diwtorialau ar-lein a DVDs hyfforddi fforddiadwy yn cynnig hyfforddiant cymhwysedd sylfaenol (codi a chario (manual handling), trin bwyd ac ati). Fodd bynnag, yn ôl y gyfraith rhaid i'r hyfforddiant fod ar gael am ddim i'ch cyflogeion. Cadwch gofnodion hyfforddi a mynd ati'n rheolaidd i werthuso meysydd gwan a gweld pryd y bydd angen hyfforddiant diweddaru.

Yn aml, bydd lefel yr hyfforddiant sy'n angenrheidiol (neu a oes angen dod ag arbenigwr neu gontractwr i mewn) yn dibynnu pa mor gymhleth yw'r gweithgaredd a faint o risg sydd ynghlwm wrtho. Mae dod â chontractwr neu arbenigwr i mewn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ichi y gall gweithiwr proffesiynol roi sêl bendith ar y gwaith (os yw'n arbennig o gymhleth). Fodd bynnag, cofiwch mai mater i'r sefydliad yw sicrhau eich bod wedi cael y gwaith papur neu'r cymhwyster perthnasol a / neu bod profiad digonol gan gontractwr neu berson hunangyflogedig. Yn y pen draw, chi fydd yn gyfrifol o hyd am y gwaith y maent yn ei wneud ar eich rhan.

## Cyfleusterau Cywir yn y Gweithle:

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/workplace-facilities/index.htm

Mewn syrcas, mae gweithle diogel yn hollbwysig. Rhaid cynnal a chadw'r offer yn dda, a'u harchwilio a'u trin yn rheolaidd;

Ar y cyfan, bydd offer codi yn dod o dan LOLER (e.e. cyffion diwydiannol, slingiau crwn, SWR ac ati) neu PUWER (offer sefydlog uwchben fel bariau goleuo sefydlog, traciau llenni ac ati) a rhaid eu harchwilio a rhoi prawf arnynt (os oes angen) bob blwyddyn ac, mewn rhai achosion, bob 6 mis.

Dylai offer trydan cludadwy (fel goleuadau theatr, offer sain a fideo ac ati) gael eu harchwilio a'u profi ar sail eich asesiad risg o'r offer yr ydych yn eu defnyddio ac i ba ddiben. Gan fod risg eithaf mawr yn gysylltiedig â'r offer mewn mannau lle mae'r celfyddydau perfformio yn digwydd, argymhellir cynnal prawf PAT bob blwyddyn. Fodd bynnag, gall fod angen gwneud yn amlach os yw sioe ar daith a'r offer yn cael eu symud i wahanol fannau gan fod mwy o risg o ddifrod nag sydd mewn lleoliad sefydlog. Gall unigolyn cymwys (sydd â thystysgrif i gynnal profion PAT yn ddelfrydol) wneud hyn trwy gynnal archwiliad gweledol yn gyntaf (sy'n datgelu 90% o ddiffygion), cyn gwneud profion PAT electronig ar yr holl offer.

Mae'n arfer da gwneud archwiliad gweledol bob amser cyn defnyddio unrhyw offer ac os gallwch gael y perfformwyr eu hunain i'r arfer o wneud hynny, bydd eich gweithgareddau'n ddiogelach. Os ydych wedi sicrhau eu bod yn gymwys i wneud hynny, nid oes rheswm pam na allant ei wneud fel rhan o restr wirio. Yna, gallwch gofnodi hynny a'i werthuso yn eich cofnodion.

## Cynnal a Chadw Safleoedd:

Rhaid cynnal a chadw safleoedd yn dda a rhaid bod cyfleusterau lles digonol ar gyfer staff a mynychwyr sy'n defnyddio'r adeilad neu'r gofod digwyddiadau. O dan y canllawiau cyfredol, bydd disgwyl i chi lunio trefn lanhau fwy manwl a ddylai gynnwys:

- Glanhau ardaloedd gweithio ac offer yn aml rhwng iddynt gael eu defnyddio, gan ddefnyddio'ch cynhyrchion glanhau arferol.

- Sicrhau bod pethau ac arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd, fel peiriannau coffi, peiriannau gwerthu neu ddyfeisiau llaw a ddefnyddir gan staff, yn cael eu glanhau yn aml a sicrhau bod trefniadau gwaredu digonol ar gyfer cynhyrchion glanhau.
- Sicrhau bod mannau a ddefnyddir gan wahanol bobl, fel ystafelloedd clyweliadau, mannau ymarfer a mannau cefn llwyfan yn cael eu glanhau yn arbennig o drwyadl yn amlach nag arfer.
- Perchnogion yn cadw offer a chyfarpar personol arall yn lân, ac yn peidio â'u rhannu â phobl eraill.
- Clirio mannau gweithio a symud gwastraff ac eiddo o'r ardal weithio ar ddiwedd dosbarth, ymarfer neu berfformiad.

Os ydych yn glanhau ar ôl achos hysbys neu achos posibl o COVID-19, dylech gyfeirio at y canllawiau penodol. Gofalwch fod gennych gynllun tân a gwacáu sydd wedi'i ystyried yn ofalus (mae rhagor o wybodaeth yn y bennod Adeiladau a Safleoedd).

https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings

## Trefniadau Cymorth Cyntaf:

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/firstaid/index.htm

Mae'r gyfraith yn mynnu bod gennych:

- Becyn cymorth cyntaf yn cynnwys y pethau angenrheidiol
- Person neu bobl wedi'u penodi i ofalu am y trefniadau cymorth cyntaf
- Gwybodaeth i'r holl weithwyr am y trefniadau cymorth cyntaf

Dylech asesu'ch anghenion cymorth cyntaf ar sail y gweithgaredd, y risgiau, y bobl sy'n cymryd rhan ac unrhyw hanes o ddamweiniau yn y gweithgaredd. Os ydych yn gweithio ar safle, efallai y byddwch am ystyried hefyd pa mor bell yw'r gwasanaethau brys, beth yw patrymau gwaith y staff a beth yw'r darpariaethau ar gyfer pobl nad ydynt ar y staff ac aelodau'r cyhoedd.

Gall fod yn ddefnyddiol creu matrics risg i asesu'ch anghenion neilltuol ac felly lefel y cymorth cyntaf y mae gofyn amdano. (Yn wir, cynghorir hynny yn y Canllaw Porffor i Iechyd, Diogelwch a Lles mewn Digwyddiadau Cerddorol a Digwyddiadau Eraill).

Os bydd arnoch angen swyddog cymorth cyntaf, mae'n rhaid ei fod/bod wedi'i hyfforddi gan ddarparwr cymwys:

- Cymorth cyntaf brys yn y gwaith (EFAW) – ar y lefel hon, wedi cymhwyso i roi cymorth cyntaf brys i rywun a anafwyd neu a aeth yn sâl yn y gwaith.
- Cymorth cyntaf yn y gwaith (FAW) – ar y lefel hon, wedi cymhwyso i lefel EFAW ond hefyd yn gallu rhoi cymorth cyntaf ar gyfer amryw o anafiadau ac afiechydon penodol.

Sylwch: Mewn digwyddiadau mawr neu gymhleth sy'n cynnwys aelodau'r cyhoedd, gall fod mwy o angen cyflogi staff meddygol a hyfforddwyd i lefel uwch (Ymatebydd Cyntaf, parafeddyg neu ambiwlansau ar y safle). Dylech gyfeirio at:

- Y Llyfr Melyn

  https://www.abtt.org.uk/resources/technical-standards-for-places-of-entertainment/

- Canllaw i ddiogelwch mewn digwyddiadau

  https://www.hse.gov.uk/event-safety/publications.htm

- Y Canllaw Porffor

  https://www.thepurpleguide.co.uk

Dylech hefyd gysylltu ag unrhyw awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r digwyddiad i drafod anghenion penodol y digwyddiad.

Sylwch: Bydd angen i chi ystyried yn awr sut y mae eich staff cymorth cyntaf neu'ch staff meddygol yn cydymffurfio â deddfwriaeth COVID (defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) ac ati pan na ellir cadw pellter cymdeithasol). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddiio PPE.

https://llyw.cymru/coronafeirws-chyfarpar-diogelu-personol-ppe

Dylid dilyn y canllawiau hyn a chânt eu diweddaru'n rheolaidd. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar orchuddion wyneb. Mae'r rhain yn trafod sut a phryd y dylech wisgo gorchudd wyneb i ddiogelu'r bobl o'ch cwmpas:

https://llyw.cymru/gorchuddion-wyneb-canllawiau-ir-cyhoedd

## Dangos poster y gyfraith am Iechyd a Diogelwch:

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/display.htm

Os ydych yn cyflogi rhywun, mae'n rhaid i chi naill ai ddangos poster y gyfraith Iechyd a Diogelwch mewn man amlwg lle gall y gweithwyr ei weld, neu roi'r daflen gyfatebol i bob gweithiwr. Cynghorir chi i godi arwyddion gweledol i atgoffa pobl am bwysigrwydd golchi dwylo'n rheolaidd, ac arwyddion sylfaenol:

https://llyw.cymru/arwyddion-diogelwch-chadw-pellter-corfforol-i-gyflogwyr-coronafeirws

## Hysbysu am ddamweiniau a salwch:

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/reporting-accidents-ill-health.htm

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i chi hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) am rai anafiadau yn y gweithle, damweiniau a fu bron â digwydd ac achosion o glefydau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Gelwir hyn yn RIDDOR a gellir ei wneud ar lein neu dros y ffôn.

https://www.hse.gov.uk/riddor/report.htm

Dim ond pan fydd y ddamwain yn gysylltiedig â'r gwaith neu'n achosi anaf o fath y mae'n rhaid ei riportio y mae angen adroddiad RIDDOR.

Ymhlith y mathau o ddigwyddiadau y mae'n rhaid hysbysu'r HSE amdanynt mae:

- Marwolaeth
- Torri asgwrn
- Clefydau galwedigaethol
- Digwyddiadau peryglus
- Digwyddiadau'n ymwneud â nwy

Mae'r rhestr lawn yma:

https://www.hse.gov.uk/riddor/reportable-incidents.htm

Mae'n bwysig bod eich sefydliad yn dangos eich bod yn gwybod am y cynllun Profi, Olrhain, Diogelu ac yn ei ddeall, a'ch bod yn cymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn gweithleoedd a mangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd.

https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws

https://llyw.cymru/cymryd-pob-mesur-rhesymol-i-leihaur-risg-o-ddod-i-gysylltiad-ar-coronafeirws-mewn-gweithleoedd

## Cyfeiriadau:

- Cyfrifoldebau cyflogwyr

  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/contents

- Rheoli pobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau perfformio

  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/contents

- Camau angenrheidiol i reoli risg

  https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/risk/steps-needed-to-manage-risk.htm

# Pennod Tri.

## Adeiladau a Safleoedd

Dylai pob mangre/safle, boed dros dro, yn bodoli eisoes neu'n newydd, gael eu dylunio, eu hadeiladu, eu cynnal a'u rheoli mewn ffordd sy'n sicrhau iechyd, diogelwch a lles y deiliaid, ymwelwyr a phawb sy'n eu defnyddio. Os yw'n berthnasol, dylid dylunio a rheoli'r fangre/safle mewn ffordd sy'n arbed ynni.

Yn yr hinsawdd bresennol, mae angen cymryd camau i atal heintiau er mwyn caniatáu i adeiladau ailagor, a disgwylir i gamau ychwanegol gael eu cymryd i ddangos bod hyn yn digwydd.

Mae gwybodaeth am y digwyddiad a'r gynulleidfa yn ffactor pwysig wrth ddylunio adeilad/safle yn llwyddiannus. Mae hyn yn golygu ystyried:

- Faint o bobl a ddisgwylir yn y gynulleidfa a'r gweithlu
- Pa fath o bobl fydd yn y gynulleidfa / proffil y gynulleidfa
- Pa fath o weithgareddau y bwriedir eu cynnal ac a ydynt y tu mewn neu'r tu allan
- A fydd y gynulleidfa yn sefyll, yn eistedd neu gyfuniad o'r ddau
- Sut i gyrraedd y safle a seilwaith y safle
- Cynlluniau argyfwng

- Hyd y digwyddiad ac ar ba adeg o'r flwyddyn y cynhelir ef
- Awyru

## Y Gyfraith:

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn Ddeddf Seneddol a sefydlodd un cynllun integredig ar gyfer trwyddedu mangreoedd yng Nghymru a Lloegr (yn unig) a ddefnyddir i werthu neu gyflenwi alcohol, i ddarparu adloniant rheoledig, neu i ddarparu lluniaeth yn hwyr y nos.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/17/contents

Mae safonau sylfaenol adeiladu mangreoedd newydd i'w gweld yn Neddf Adeiladu 1984 ac yn y Rheoliadau Adeiladu.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/55

## Canllawiau:

Mae rhagor o ganllawiau yn y Technical Standards for Places of Entertainment a ddyluniwyd yn benodol i helpu pobl sydd â thrwyddedau, rheolwyr technegol a gorfodwyr i ddeall gofynion ac anghenion mannau adloniant.

https://www.abtt.org.uk/resources/technical-standards-for-places-of-entertainment/

Mae canllawiau manwl ar sut i gyfrif faint o bobl y mae lleoliad yn eu dal, lled a nifer yr allanfeydd, seddau a llwybrau cerdded i'w gweld yn:

The Guide to Safety at Sports Grounds (Green Guide):

https://sgsa.org.uk/greenguide-availablenow/

## Asesu a yw lleoliad/safle yn addas:

Pan fydd gennych ddealltwriaeth glir o'r digwyddiad neu'r defnydd a wneir o'r adeilad, mae'n werth asesu'r lle i benderfynu a yw'n addas.

Gofynnwch i berchennog y tir, yr awdurdod lleol neu dîm rheoli'r ganolfan am gyngor, yn enwedig os bwriadwch wneud gwaith strwythurol.

## Faint mae Lleoliad/ Safle yn ei Ddal:

Mae'n bwysig gwybod lle i faint o bobl sydd mewn lleoliad neu safle. Gall y ffactorau hyn gyfyngu ar y nifer:

- Allanfeydd argyfwng
- Gallu'r gynulleidfa i symud o gwmpas y lleoliad/ safle

Os oes tocynnau ar gyfer eich digwyddiad neu nifer gyfyngedig o seddau, bydd gennych gynllun clir o faint o bobl all fod yn bresennol. Ar hyn o bryd, bydd angen cadw at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol (2 fetr):

https://llyw.cymru/coronafeirws-cadw-pellter-cymdeithasol

- Dylech: Sicrhau bod maint y gynulleidfa, y trefniadau a'r perfformiadau a gaiff eu llwyfannu yn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol – dylai asesiadau risg ystyried yn benodol y terfyn capasiti ar gyfer perfformiad penodol ar ôl i fesurau rhesymol gael eu rhoi ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws, ac ar ôl cynnwys y gofyniad i gadw pellter corfforol a'r gallu i reoli ymddygiad y gynulleidfa.

- Lleihau capasiti safle neu leoliad a chyfyngu ar nifer y tocynnau a werthir i swm sy'n sicrhau y gellir cadw pellter corfforol o 2m ar bob adeg.

Os nad yw'n hysbys faint o bobl fydd yn bresennol, gellir defnyddio dull cyfrifo syml. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni all fod yn fwy na'r nifer y gellir eu cynnwys gan gadw pellter cymdeithasol:

- Bydd angen i berfformiadau neu ddigwyddiadau di-dâl, agored, heb docynnau a heb ffiniau ddangos bod dull rhesymol ar waith ar gyfer rheoli niferoedd os bydd gormod o bobl yn dechrau cyrraedd, a dangos bod mesurau priodol ar waith i sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol ar bob adeg.

- Lled a chapasiti llwybrau i'r tu allan, fel y gall pobl ddianc yn ddiogel.

Nifer y bobl y gall y safle eu cynnwys yn ddiogel. Bydd defnyddio ffactor arwynebedd y llawr yn help i wneud y sym:

**Nifer y bobl = Arwynebedd y llawr (m2) / Dwysedd y bobl**

## Ffactor Arwynebedd y Llawr:

| **Math o Ardal lle mae Pobl** | **Dwysedd Nodweddiadol Pobl (m2/person)** |
|---|---|
| Ardal i wylwyr/gynulleidfa ar eu traed neu ardal y bar | 0.3 |
| Man ymgynnull, tafarn, llawr dawnsio neu neuadd | 0.5 |
| Ardal fwyta neu fwyty | 1.0 |
| Lle ar gyfer chwaraeon | 2.0 |
| Ardal werthu mewn siop | 2.0 |
| Man arddangos, cynhyrchu neu weithdy | 5.0 |
| Swyddfa | 6.0 |
| Ardal werthu mewn siop nwyddau swmpus | 7.0 |

**Sylwch:** Dylid gosod y seddau fel y gellir symud yn rhydd ac yn hwylus i'r allanfeydd. Os yw'r seddau'n rhai sefydlog, dylai fod lle clir o 305mm, o leiaf, rhwng y rhesi. Dylai'r llwybrau cerdded fod yn ddigonol ar gyfer nifer y seddau (gweler y cyfeiriad blaenorol at y llwybrau dianc) ac o leiaf 1,050mm o led. Yn gyffredinol, ni ddylai'r un sedd fod mwy na saith sedd o lwybr cerdded. Os defnyddir seddau dros dro, dylid eu cysylltu â'i gilydd mewn setiau o ddim llai na phedair sedd a dim mwy na deuddeg.

**Sylwch:** Dylid rheoli pob awditoriwm neu leoliad neu safle perfformio mewn ffordd sy'n sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol

## Egwyddorion trefnu'r seddau:

Dyma rai o'r egwyddorion allweddol i'w dilyn ar gyfer seddau:

- Dylai cynulleidfaoedd gael eu lleoli i eistedd fel unigolion neu grwpiau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig;

  https://llyw.cymru/ymweld-phobl-mewn-cartrefi-preifat

- Dylai'r unigolion a'r grwpiau hyn gadw pellter cymdeithasol o 2m rhyngddynt ag unigolion a grwpiau eraill;
- Bydd angen goruchwylio ardaloedd cyffredin er mwyn sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol
- Dylid ystyried seddau a gofodau i bobl y mae arnynt angen sedd i berson anabl neu ofod i gadair olwyn o fewn y trefniadau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol gan roi sylw dyledus i gyfrifoldebau hygyrchedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ymhlith y camau ychwanegol y bydd angen eu cymryd gan amlaf mae:

- Darparu seddi mewn ffordd sy'n sicrhau y gall unigolion gadw pellter cymdeithasol a bod grwpiau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig yn cael eistedd gyda'i gilydd. Ystyried camau fel hyn:
  - darparu seddi cadw a rheoli cynlluniau seddi â systemau tocynnau neu â llaw er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol o 2m rhwng gwahanol grwpiau ac unigolion;
  - os na ddarperir seddi cadw, dylid gosod rhwystrau i wahanu seddi neu labelu seddi na ddylid eu defnyddio, neu ddefnyddio staff i helpu'r gynulleidfa i ddefnyddiio seddi gan gadw pellter cymdeithasol;
- Disgwylir i westeion gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain a lles eraill a chadw pellter cymdeithasol yn yr awditoriwm. Serch hynny, dylid defnyddio staff i sicrhau y cedwir at y mesurau hyn. (Gall hyn gynnwys arwyddion a chyhoeddiadau, mwy o fesurau cadarnhau a goruchwylio, yn enwedig cyn pob perfformiad ac ar ddiwedd pob perfformiad);
- Annog aelodau'r gynulleidfa i beidio â dod â bagiau na chotiau i mewn i'r awditoria os oes modd er mwyn cadw'r seddi'n glir.
- Caniatáu egwyliau hirach fel y gall aelodau'r gynulleidfa ddefnyddio'r toiledau yn ddiogel.
- Atgoffa gwesteion sy'n dod â phlant gyda nhw eu bod yn gyfrifol am eu goruchwylio trwy'r amser ac y dylent ddilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol.

- Trefnu mannau dynodedig lle gall staff y safle neu'r lleoliad roi cyngor neu gymorth i westeion gan gadw pellter cymdeithasol.
- Glanhau awditoria yn aml iawn ac amserlennu perfformiadau i ganiatáu digon o amser i wneud y gwaith glanhau angenrheidiol cyn i'r gynulleidfa nesaf gyrraedd.
- Sicrhau canllawiau clir ynghylch defnyddio a glanhau cyfleusterau lles er mwyn:
  - sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân ac y gellir cadw pellter cymdeithasol hyd y bo modd; er enghraifft, trwy leihau nifer yr wrinalau, y ciwbiclau, y basnau ymolchi a'r sychwyr dwylo sydd ar gael;
  - ystyried y patrymau tebygol o'u defnyddio yn ystod perfformiad, er enghraifft yn ystod egwyliau, ac addasu amseroedd cyrraedd a gadael i'w gwneud yn llai tebygol y bydd llawer o bobl yn defnyddio'r cyfleusterau ar yr un pryd;
  - annog gwesteion a'r gynulleidfa i gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain a lles pobl eraill.

https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings

## Ffordd o Ddianc:

Dylai llwybr dianc fod yn ddigon ar gyfer nifer y bobl sy'n debygol o'i ddefnyddio. Felly, mae angen i chi ystyried y nifer fwyaf o bobl, gan gynnwys staff, y cyhoedd a chontractwyr allanol a allai fod yn bresennol ar yr un pryd.

Ar ôl i chi gyfrifo faint o bobl y gall lle o'r maint hwn eu dal, rhaid i chi sicrhau bod hyn yn is na'r uchafswm a all ddefnyddio'r llwybrau dianc ar y tro.  Mewn mangre â'r risg arferol, 2 1⁄2 munud yw'r amser dianc rhesymol.  Mae'r rhan fwyaf o fannau ymgynnull yn perthyn i'r categori risg arferol hwn.  Gellir defnyddio'r cyfrifiad isod i ganfod, yn gyffredinol, faint o bobl all ddefnyddio llwybrau dianc o fewn yr amser hwn:

Gall lled clir o 750mm, o leiaf, gynnwys hyd at 100 o bobl mewn mangre â risg arferol.

Yn y rhan fwyaf o fannau ymgynnull, dylai llwybr dianc fod o leiaf 1050mm o led yn ddelfrydol ond, beth bynnag, yn ddim llai na 750mm (oni bai y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan lai na phump o bobl mewn rhan ar wahân o'ch safle). Gall lled o 1050mm neu fwy gynnwys hyd at 200 o bobl mewn mangre â risg arferol.  Os oes mwy o bobl, mae angen 75mm ychwanegol ar gyfer pob 15 person ychwanegol (neu ran o 15).

**Sylwch:** Os oes pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yno, dylai'r lled fod yn ddim llai na 900mm.

Yn gyffredinol, dylai grisiau fod yn 1050mm neu fwy o led a dylent fod yn gallu cynnwys faint bynnag o bobl sydd ar y lloriau sy'n eu defnyddio. Yn achos mangreoedd sy'n bodoli eisoes, gall lled a nifer y setiau grisiau gyfyngu ar nifer y bobl y mae'n ddiogel iddynt ddefnyddio'r lloriau uchaf, beth bynnag yw'r cyfrifiadau ar gyfer arwynebedd y llawr sydd ar gael a lled allanfa'r llawr hwnnw. Rhan gulaf pob llwybr allan sy'n penderfynu faint o bobl all ei ddefnyddio.

Wrth gyfrifo faint o bobl all ddefnyddio llwybrau dianc mangreoedd sydd â mwy nag un ffordd allan, dylech dybio nad yw'r allanfa fwyaf llydan ar gael, oherwydd tân.  Yna dylid cyfyngu nifer y bobl a gaiff ddefnyddio'r fangre ar yr un pryd i'r nifer y gellir eu cynnwys o gyfrif cyfanswm lled y llwybrau dianc eraill gyda'i gilydd.  Rhaid bod modd i'r holl bobl sydd yn yr adeilad, neu fwy, fod yn gallu defnyddio'r llwybrau dianc.

https://www.gov.uk/workplace-fire-safety-your-responsibilities

## Ystyriaethau Allweddol:

Er mwyn cadw pellter cymdeithasol pan fydd pobl yn symud o gwmpas y fangre neu'r lleoliad yn ystod perfformiadau, bydd angen cymryd y camau isod gan amlaf:

- Cyfyngu ar nifer y mynedfeydd a'r allanfeydd a'u rheoli i atal gormod o bobl rhag ymgasglu yno
- Addasu amserlenni perfformiadau fel y gellir glynu at drefniadau cadw pellter cymdeithasol a chyfundrefnau glanhau priodol. Er enghraifft, trefnu bod digon o amser rhwng perfformiadau i leihau'r posibilrwydd y bydd gwahanol gynulleidfaoedd yn dod yn agos at ei gilydd ac i roi amser i lanhau.

  https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings
- Ciwio y tu allan i'r adeilad neu'r lleoliad os oes lle ar gael a'i bod yn ddiogel gwneud hynny. Dylid rheoli ciwiau y tu allan i sicrhau nad ydynt yn achosi risg i unigolion na busnesau eraill nac yn creu risgiau diogelwch ychwanegol. Gellir gwneud hyn, er enghraifft, trwy gyflwyno systemau ciwio gan gadw pellter corfforol, cael staff i roi cyfarwyddiadau i ymwelwyr neu'r gynulleidfa, ac amddiffyn ciwiau rhag traffig trwy eu cyfeirio y tu ôl i strwythurau parhaol fel dodrefn stryd, raciau beiciau, bolardiau neu drwy godi rhwystrau.
- Cydweithio â'ch awdurdod lleol neu'ch landlord i ystyried effaith eich prosesau, er enghraifft, ciwiau, mewn mannau cyhoeddus fel strydoedd a meysydd parcio cyhoeddus.

## Ciwio:

- Lleihau achosion lle gallai fod yn ofynnol i bobl giwio . Er enghraifft:
  - wrth fynedfeydd ac allanfeydd yr adeilad;
  - wrth risiau symudol, grisiau a lifftiau;
  - ciosgau tocynnau, mannau gwerthu a phwyntiau dilysu tocynnau;
  - mynedfeydd ac allanfeydd i'r awditoria; a
  - toiledau ac ystafelloedd ymolchi.
- Lle bo modd, neilltuo staff i reoli ciwiau a rheoli mynd a dod rhwng gwahanol rannau'r fangre.
- Sicrhau eich bod wedi cytuno ar weithdrefnau priodol ar gyfer gwacáu'r fangre ac ar fannau ymgynnull os bydd argyfwng.
- Annog ymwelwyr i ddefnyddio hylif diheintio dwylo neu gyfleusterau golchi dwylo wrth iddynt gyrraedd y safle neu'r lleoliad.
- Defnyddio systemau rheoli ciwiau a marcio systemau llif unffordd trwy'r safle neu'r lleoliad fel bod llai o fannau cyswllt. Er enghraifft, cyflwyno systemau unffordd trwy'r ardaloedd cyffredin, fel nad oes raid i bobl basio'i gilydd wrth fynd a dod i'r mannau hyn.
- Helpu ymwelwyr i gadw pellter cymdeithasol trwy roi marciau gweladwy ar hyd y lloriau neu'r waliau, gan ddweud wrth bobl am gadw 2m ar wahân.

## Cyrraedd a Gadael y Safle:

- Sicrhau bod unrhyw newidiadau i drefniadau rheoli pobl wrth gyrraedd, gadael a chiwio yn ystyried addasiadau rhesymol i'r bobl y mae arnynt eu hangen, gan gynnwys ymwelwyr anabl. Er enghraifft, cynnig llwybrau a mannau parcio ar gyfer cwsmeriaid anabl.

- Ystyried anghenion neilltuol pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, fel rhai sydd â nam ar eu clyw neu nam ar eu golwg.

- Efallai y bydd angen stiwardiaid / swyddogion ychwanegol mewn mannau lle mae llawer o bobl yn dod ynghyd a dylid symud unrhyw rwystrau a allai achosi tagfeydd wrth allanfeydd. Dylid ystyried hyn fel rhan o gynllun y digwyddiad ar gyfer rheoli torf, gan ymgynghori â'r rhai sy'n gyfrifol am reoli diogelwch, stiwardio ac ati.

- Rhaid ystyried rheoli mannau lle mae torf yn ymgasglu, fel mannau lle mae pobl yn aros i wylio arddangosiadau, fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.

- Cyfyngu ar gyfleoedd ymwelwyr i ddod i gysylltiad â pherfformwyr a staff cymorth, er enghraifft trwy:

  - defnyddio staff diogelwch y theatr i gadw'r mannau ger drws y llwyfan yn glir cyn ac ar ôl perfformiad fel y gall perfformwyr a gweithwyr eraill gyrraedd a gadael yn ddiogel;

  - peidio â chaniatáu i ymwelwyr fynd i gefn y llwyfan;

  - peidio â chaniatáu i ymwelwyr ofyn i berfformwyr am lofnodion na ffotograffau.

## Adeiladweithiau a nodweddion sy'n bodoli eisoes:

Ceisiwch ganfod a yw adeiladweithiau a nodweddion sy'n bodoli eisoes yn achosi perygl, e.e. cyfyngiad uchder ar gyfer cerbydau/offer codi/gweithrediadau. Gofalwch fod adeiladwaith unrhyw heolydd, pontydd ac ati yn gadarn a'u bod yn gallu gwrthsefyll pwysau ychwanegol cerbydau trwm a nifer y bobl fydd yn dod i'ch digwyddiad.

Os yw'ch digwyddiad yn y stryd, gallai goleuadau stryd a dodrefn stryd eraill effeithio ar eich cynlluniau. A ydi rheiliau, arosfannau bysiau neu strwythurau eraill yn creu peryglon ychwanegol fel mannau cul lle daw llawer o bobl at ei gilydd gan beri risgiau i'r gynulleidfa? Os felly, a ellir eu symud dros dro?

## Cyflwr y ddaear a thopograffeg y safle:

Bydd cyflwr y ddaear a thopograffeg y safle yn eich helpu i benderfynu ble i roi unrhyw strwythurau symudol dros dro sy'n ofynnol fel llwyfannau a seddi, ynghyd â maint a lleoliad unrhyw arwyddion

Ewch ati i ganfod faint o bwysau y gall y llawr/ddaear ei ddal mewn mannau lle bwriedir gosod strwythurau penodol a beth yw cyflwr y ddaear yn debygol o fod mewn mannau angori strwythurau. Mae'n werth cael peiriannydd cymwysedig i gyfrifo a chymeradwyo hyn ond cofiwch y bydd angen ei addasu os byddwch yn newid neu'n addasu'r cynllun gwreiddiol.

Mae'n bwysig canfod sut mae'r safle'n ymdopi â thywydd eithafol fel llifogydd, gan y gall hyn effeithio ar ddyluniad y safle a hyd yn oed yr adeg o'r flwyddyn y cynhelir y digwyddiad.

Peidiwch â chreu mannau cul i sianelu'r cyhoedd trwyddynt lle gellid cael tagfeydd peryglus mewn

argyfwng – gall fod angen rhagor o le o gwmpas strwythurau.

Ewch ati i ganfod o ba gyfeiriad mae'r gwynt yn chwythu gan amlaf, pa effaith y gall man gwyntog ei chael ar eich gallu i godi strwythurau yn ddiogel ac a allwch ddylunio'r safle gan ddefnyddio'r topograffeg i leihau llwyth gwynt arnynt.

## Mynd a dod:

Dylai fod gan y fangre neu'r safle ddigon o ffryntiad â'r heol neu â darn tir agored rhyngddo â'r heol sy'n rhoi digon o le i bobl wasgaru'n sydyn os bydd argyfwng.

Dylid gwneud trefniadau digonol fel y gall y frigâd dân gyrraedd i ddiffodd tân.

Ar safleoedd mawr, dylech sicrhau ei bod yn ddiogel i gerbydau a cherddwyr ddod i mewn i'r safle a symud o'i gwmpas. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau parcio, gwersylla a charafanio ar y safle, ynghyd â mannau i gadw peiriannau ac offer a cherbydau masnach.

## Y seilwaith ac amwynderau lleol:

Dylech asesu pa mor agos yw'r safle at ysbyty, gorsaf dân, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, mannau parcio, prif ffyrdd, a gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Bydd y wybodaeth hon yn dylanwadu ar y math o ddarpariaethau a gwasanaethau ychwanegol y gallai fod angen i chi eu darparu a faint ohonynt.

Os bydd angen i chi gladdu gwifrau/pibellau ac ati ar gyfer gwasanaethau dros dro neu guro polion i'r ddaear i gynnal strwythurau fel marquees a phebyll, ystyriwch y peryglon a achosir gan wasanaethau tanddaear.

## Rheoli Tân:

Gofalwch fod gennych asesiad risg clir o ran diogelwch tân a chynllun clir i wacáu'r safle. Dylid rhoi copi i'r gwasanaeth tân o fanylion unrhyw fesurau rheoli tân arferol sydd gan y fangre:

Dylai'r safle fod wedi'i amddiffyn yn ddigonol rhag effeithiau tân yn digwydd yn yr adeilad neu mewn adeilad cyfagos.

Dylid gwneud darpariaeth ddigonol i reoli lledaeniad mwg trwy'r adeilad os bydd tân.

Dylai fod digon o olau ym mhob rhan o'r fangre. Dylai pob llwybr dianc a phob rhan o'r fangre y mae'r cyhoedd yn cael mynd iddynt gael eu goleuo'n ddigonol ac yn ddibynadwy o ddau gyflenwad a dwy system annibynnol.

Dylid darparu offer diffodd tân digonol ar gyfer y fangre. Dylid darparu arwyddion diogelwch digonol trwy'r fangre i gyd.

Dylid darparu system rybuddio ar ffurf larwm a dulliau effeithlon o gyfathrebu mewn argyfwng trwy'r fangre i gyd.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/14899/fsra-5-step-checklist.pdf

## Gosodiadau trydanol:

Dylai fod gan osodiadau trydanol adroddiad cyflwr dilys ar gyfer gosodiadau trydanol yn unol â BS7671 a dylent gaell eu harchwilio yn rheolaidd. Mae'r canllawiau'n awgrymu y dylid cael rhaglen brofi reolaidd ar gyfer systemau a ddefnyddir ar gyfer adloniant a pherfformio.

Dylai'r gosodiad trydanol fod yn ddiogel o safbwynt mecanyddol a thrydanol a dylai fod yn addas ar gyfer yr hyn y bwriedir ei wneud yn y fangre.

Yn ôl arferion gorau'r diwydiant adloniant, dylid cynnal archwiliad bob rhyw 12 mis. Mae awdurdodau trwyddedu, awdurdodau addysg a chwmnïau yswiriant yn aml yn nodi pa mor aml y maent yn gofyn am dystysgrif archwilio reolaidd newydd; gan amlaf, 12 mis yw'r cyfnod hwn.

Dylid trefnu unrhyw osodiad mecanyddol fel ei fod yn achosi cyn lleied o risg ag y bo modd i'r cyhoedd, perfformwyr a staff.

Dylid trefnu unrhyw effeithiau arbennig fel eu bod yn achosi cyn lleied o risg ag y bo modd i ddiogelwch y cyhoedd, perfformwyr a staff.

## Sain a Goleuo:

Er mwyn lleihau trosglwyddiad y feirws a chadw pellter cymdeithasol lle bo modd wrth reoli sain a goleuadau, dyma rai enghreifftiau o'r camau y gellid eu cymryd:

- Defnyddio ystafelloedd rheoli sain a goleuadau os oes rhai ar gael, bod y tu ôl i wydr a monitro trwy seinyddion [speakers] (yn achos sain). Dim ond y bobl angenrheidiol ddylai gael mynd i'r ystafell a dylai unrhyw bobl yn yr ystafell reoli gadw pellter cymdeithasol o 2m yn unol â maint yr ystafell.
- Creu sgrin (e.e. sgrin gauze nad yw'n rhwystro sain) o amgylch desgiau sain a goleuo i ddod rhwng y tîm sain a'r gynulleidfa neu aelodau eraill o'r criw.
- Os yw'r ddesg sain yn agos at seddau'r gynulleidfa, ystyriwch adael y rhes agosaf o seddi yn wag.
- Glanhau'n rheolaidd, er enghraifft, desgiau sain a goleuo, mics a phecynnau batri.
- Caniatáu amser ychwanegol i lanhau yn ystod y 'get-in' a'r 'get-out'.

## Offer arall:

Er mwyn lleihau trosglwyddiad y feirws trwy gysylltiad â'r holl offer, bydd angen y camau canlynol fel arfer:

- Annog pobl i olchi eu dwylo'n amlach a darparu mwy o gyfleusterau golchi dwylo i weithwyr neu hylif diheintio dwylo lle nad yw hynny'n ymarferol.
- Osgoi rhannu eitemau personol fel ffonau, gwefryddion [chargers], beiros a bod perchnogion yn cymryd cyfrifoldeb am ddiheintio eu hoffer personol yn rheolaidd.
- Osgoi rhannu offer proffesiynol os oes modd a rhoi labeli enwau ar offer i helpu i wybod pwy sydd i fod i'w defnyddio.

- Sicrhau bod radios a phensetiau neu glustffonau ychwanegol ar gael, gan ddewis aelod o bob tîm i fod yn gyfrifol amdanynt trwy gydol y cynhyrchiad, a sicrhau eu bod yn cael eu glanhau'n briodol os nad rhai un-tro ydynt.

- Os oes rhaid rhannu offer, dylid ei ddiheintio'n rheolaidd (gan gynnwys unrhyw gasys pacio, dolenni, props, cadeiriau ac ati).

- Ystyried cyfyngu ar nifer y cyflenwyr wrth logi offer.  Dylid trafod cyfrifoldeb am lanhau offer wedi'u llogi gyda'r cyflenwyr.

- Glanhau offer wedi'u llogi, twls neu gyfarpar arall pan gyrhaeddant a chyn eu defnyddio gyntaf. Os bydd offer ac ati yn cyrraedd cyn bod angen eu defnyddio, cadwch nhw mewn lle glân a'u glanhau cyn eu defnyddio gyntaf.

- Trefnwch fannau i gasglu a gollwng offer os oes modd, yn hytrach na phasio offer fel props a mics o law i law, a gofalwch eu glanhau cyn ac ar ôl eu danfon.

- Peidio â chaniatáu i bobl eraill gyffwrdd ag offer, props, offerynnau, y set na phethau eraill a ddefnyddir gan berfformwyr.

- Cymryd gofal wrth drin offer trwm, yn cynnwys:

  - ailystyried y lle sydd ar gael rhag i bobl orfod gweithio'n agos at ei gilydd (e.e. defnyddio mwy o lorïau i gludo nwyddau);

  - gwneud mwy o ddefnydd o offer trin mecanyddol (fel peiriannau fforchgodi) fel nad oes nifer fawr o weithwyr yn gweithio'n agos at ei gilydd (e.e. codi casys trwm a golygfeydd);

  - cadw at yr un parau os oes rhaid i ddau o bobl weithio'n agos at ei gilydd, er enghraifft, ar gyfer tasgau codi neu gynnal a chadw na ellir eu gwneud yn wahanol;

  - peidio â symud gweithwyr nac offer o gwmpas os nad oes raid;

  - sicrhau bod y rhannau o offer a rennir rydych yn cyffwrdd â nhw yn cael eu glanhau bob tro y defnyddir nhw, gan feddwl am offer, twls a cherbydau.

## Cyfleusterau Lles:

Dylid sicrhau bod pob rhan o'r fangre'n cael eu hawyru'n ddigonol er mwyn cadw'r lle'n iach.

Gall awyru da helpu i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws, felly bydd yn bwysig canolbwyntio ar wella awyru cyffredinol, trwy ddefnyddio awyr iach neu systemau mecanyddol os oes modd.

Lle bo modd, gallwch ystyried ffyrdd o gynnal a chynyddu'r cyflenwad o awyr iach, er enghraifft, trwy agor ffenestri a drysau (os nad ydynt yn ddrysau tân).

Mae cyngor ar ailddechrau defnyddio adeiladau yn ddiogel ar gael gan y Chartered Institute of Building Services Engineers (CIBSE):

https://www.cibse.org/coronavirus-covid-19/emerging-from-lockdown

Dylid darparu dulliau parhaol o wresogi pob rhan o'r fangre sy'n cael ei defnyddio'n rheolaidd a dylid trefnu hynny mewn ffordd nad yw'n beryglus nac yn achosi risg o dân.

Dylai fod gan y fangre gyflenwad dwr parhaol a system ddraenio ddigonol.

Dylid darparu toiledau a chyfleusterau glanweithdra digonol, am ddim, gan ystyried y math o adloniant a roddir yn y fangre.

## Hylendid:

Er mwyn helpu pawb i gael trefn dda ar gyfer golchi dwylo a gofalu am eu hylendid anadlol bob amser bydd angen y camau canlynol gan amlaf:

- Defnyddio posteri ac arwyddion i godi ymwybyddiaeth o dechnegau golchi dwylo da, a'r angen i olchi dwylo'n amlach, i osgoi cyffwrdd â'ch wyneb, ac i besychu neu disian i hances bapur a deflir yn ddiogel i'r bin, neu wneud i'ch braich os nad oes hances bapur ar gael.

  https://llyw.cymru/arwyddion-diogelwch-chadw-pellter-corfforol-i-gyflogwyr-coronafeirws

- Darparu hylif diheintio dwylo mewn sawl man hygyrch yn ogystal ag mewn ystafelloedd ymolchi. Dylid ystyried defnyddwyr cadeiriau olwyn wrth benderfynu ble y dylid gosod y rhain.
- Gosod canllawiau clir ar gyfer defnyddio a glanhau toiledau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân ac y cedwir pellter cymdeithasol hyd y bo modd
- Gwneud mwy o lanhau mewn ardaloedd prysur.
- Darparu mwy o gyfleusterau gwastraff a chasglu sbwriel yn amlach.
- Darparu cyfleusterau sychu dwylo – naill ai dywelion papur neu sychwyr trydan.

## Ystafelloedd cotiau:

Dylid darparu ystafelloedd cotiau digonol ar gyfer ymwelwyr ynghyd â chyfleusterau newid digonol i staff, yn cynnwys perfformwyr, gan ystyried i beth y defnyddir y fangre.

Bydd angen i leoliadau a mangreoedd perfformio a digwyddiadau ystyried sut y byddant yn trefnu ystafelloedd cotiau, ac yn benodol:

- Cau ystafelloedd cotiau os bydd angen o ystyried yr heriau o'u cynnal yn ddiogel.
- Eu glanhau'n aml iawn.
- Ystyried defnyddio trefniadau 'dim cyffwrdd' lle bo modd e.e. loceri. Fodd bynnag, bydd angen glanhau loceri yn drylwyr ar ôl eu defnyddio bob tro.

## Dwr Yfed:

Dylid darparu cyflenwad digonol o ddwr yfed am ddim i'r holl staff gan gynnwys perfformwyr, ynghyd â dŵr yfed am ddim i gwsmeriaid os yw'r math o adloniant a gynigir yn gwneud hynny'n ddymunol ar gyfer iechyd a lles y cwsmeriaid.

Cyn ailagor, mae'n bwysig gwneud yr holl archwiliadau arferol i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel. Os bu adeiladau wedi cau neu'n cael llai o ddefnydd yn ystod cyfnod COVID-19, mae'n bosib bod y dwr wedi sefyll yn llonydd yn y system oherwydd diffyg defnydd, gan gynyddu peryglon clefyd y llengfilwyr.

Gall canllawiau'r Arolygiaeth Dwr Yfed (DWI) ar ailddechrau defnyddio adeiladau ar ôl cyfnod segur fod yn ddefnyddiol. Mae'r canllawiau'n ymdrin â nifer o faterion y dylid eu hystyried ynghylch ansawdd ac maent ar gael ar wefan yr Arolygiaeth.

Dylid gwneud trefniadau digonol ar gyfer storio sbwriel a'i waredu'n hwylus.

Dylid nodi'n glir pa gyfleusterau y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan y cyhoedd

## Cynllun Gweithredu:

Deall yn union beth y bwriadwch ei wneud ac ar gyfer pwy y bwriadwch ei wneud yw'r man cychwyn hanfodol ar gyfer popeth arall. Gan gofio hyn, gallwch ddechrau dylunio'r safle a gwneud beth sy'n angenrheidiol i'w ddatblygu'n ddiogel. Byddai hyn yn cynnwys:

Os oes tocynnau ar gyfer eich digwyddiad neu nifer gyfyngedig o seddau, bydd gennych gynllun clir o faint o bobl all fod yn bresennol. Os nad oes tocynnau ac nad ydych yn siwr faint fydd yn dod, gallwch ddefnyddio'r dull isod:

Sylwch: Yn yr argyfwng presennol, bydd angen i faint y gynulleidfa gydymffurfio â'r canllawiau a bennir gan y llywodraeth am gadw pellter cymdeithasol. (Gweler y bennod ar Cydymffurfio â'r Gofynion o ran COVID.

## Math o ddigwyddiad:

Beth bynnag yw maint y digwyddiad, mae'n debygol y bydd angen ystyried nifer o risgiau a pheryglon mewn perthynas â'r safle a ddewiswch. Er enghraifft, a fydd gennych lwyfan neu setiau mawr? A fydd perfformwyr yn "hedfan"? Bydd angen i chi gynnal nifer o asesiadau rhagarweiniol er mwyn canfod a yw'r safle a ddewiswyd gennych yn addas:

- Beth rydych yn bwriadu ei wneud ar y safle a ddewiswyd gennych?
- Ydi'r safle'n addas at y diben? Faint fydd cost ei wneud yn addas?

## Cynllunio:

- Ystyriwch i beth y caiff y strwythur ei ddefnyddio, beth y mae angen iddo allu ei wneud, pwy fydd yn ei ddefnyddio a sut.
- Paratowch fanyleb glir ar gyfer y defnydd y bydd angen ei wneud o'r strwythur. Dylai hyn gynnwys y manylion technegol angenrheidiol fel y gall y contractor / dylunydd a benodir gennych wneud y gwaith dylunio.
- Dylai'r contractwyr/dylunwyr a gyflogir i ddylunio, cyflenwi, adeiladu a rheoli strwythur i chi a'i dynnu i lawr fod yn gymwys a dylai fod ganddynt adnoddau digonol.
- Rhowch wybodaeth berthnasol am y safle i'r contractwyr / dylunwyr a/neu ganiatáu mynediad iddynt i'r safle i wneud eu hasesiadau eu hunain.
- Dylai'ch contractor sicrhau bod dyluniad y strwythur arfaethedig wedi'i baratoi gan berson cymwys a'i fod yn talu sylw i'r defnydd a wneir o'r strwythur ac o dan ba amodau y gosodir ef.
- Gall fod angen i ddylunydd gynnal profion ychwanegol ar strwythurau arloesol neu anghyffredin

er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn.

- Dylai'r sawl sy'n codi'r strwythur gynnal asesiad o'r peryglon a'r risgiau sy'n debygol o godi wrth ei adeiladu. Gall yr isod helpu wrth gynnal asesiad a rhoi rhagor o wybodaeth am beryglon a risgiau wrth adeiladu.

  - Syrthio o uchder

  https://www.hse.gov.uk/event-safety/falls-from-height.htm

  - Pynciau diogelwch gwaith adeiladu (yn cynnwys gwaith codi a diogelwch cerbydau)

  https://www.hse.gov.uk/construction/safetytopics/index.htm

- Peryglon i iechyd ym maes adeiladu

  https://www.hse.gov.uk/construction/healthrisks/index.htm

- Dylech gydweithio â'ch contractwyr i gynllunio a datblygu systemau gwaith diogel a gofalu bod yr holl risgiau arwyddocaol ar y safle'n cael eu rheoli'n iawn e.e. defnyddio craeniau a thryciau codi. Lift trucks.

- Dylech gynllunio i sicrhau bod cyn lleied o ddryswch a gwrthdaro ag y bo modd, yn enwedig rhwng contractwyr sy'n gweithio ar yr un strwythur ar yr un pryd neu'r naill ar ôl y llall.

- Ystyriwch faint o reolaeth sydd gennych chi a'ch contractwyr dros y gwaith a'r gweithle ar bob cam o'r gwaith, wrth godi a defnyddio'r strwythur a'i dynnu i lawr. Dylai trefnwyr a chontractwyr gytuno wrth wneud y gwaith cynllunio faint o reolaeth sydd ganddynt, fel bod pawb yn deall pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch y strwythur a bod rhywun yn cymryd cyfrifoldeb amdano trwy gydol y digwyddiad.

## Adeiladu a thynnu i lawr:

- Dylai'r asesiadau a gynhelir o dan y pennawd Cynllunio (uchod) fod yn ganllaw i'r gwaith o godi'r strwythur a'i dynnu i lawr yn ddiogel.

- Gofalwch fod digon o amser ac adnoddau ar gael i godi'r strwythur a'i dynnu i lawr yn ddiogel.

- Defnyddiwch staff cymwys a gofalwch fod gennych system reoli weithredol addas ar y safle i oruchwylio a sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio â'r gofynion o ran diogelwch.

- Gall rhaglen waith, yn cynnwys pwyntiau gwirio allweddol o ran diogelwch, helpu i sicrhau bod rheolwr y safle / penaethiaid y criwiau a'r gweithwyr yn gwybod beth yw camau pwysig y gwaith o godi'r strwythur a'i dynnu i lawr.

- Dylid cadw at y dyluniad y cytunwyd arno a defnyddio sytem weithio ddiogel wrth godi'r strwythur.

- Dylid trefnu i'r strwythur gael ei archwilio er mwyn sicrhau ei fod wedi'i godi yn unol â'r dyluniad.

## Tra bydd yn cael ei ddefnyddio:

- Gwnewch drefniadau i archwilio'r strwythur i weld a yw'n dirywio tra bydd ar ei draed. Dylid gwneud hynny yn unol â chynllun rheoli ysgrifenedig a threfnu i gywiro unrhyw ddiffygion os bydd angen.
- Gwnewch drefniadau i sicrhau bod unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i gadw'r strwythur yn ddiogel tra bydd yn cael ei ddefnyddio. Er enghraifft, os yw'r tywydd yn debygol o effeithio ar y strwythur, dylid cadw golwg ar y tywydd yn yr ardal a gwneud mesuriadau perthnasol. Os bydd y tywydd yn ddrwg, gofalwch eich bod yn gwybod beth i'w wneud i gadw'r strwythur yn gadarn a phryd y dylid trefnu i'w wacáu.

https://www.hse.gov.uk/event-safety/temporary-demountable-structures.htm

## Yn achos digwyddiadau awyr-agored, ystyriwch y pethau a ganlyn yn ogystal:

- Gosodiad y safle (ardaloedd perfformio, stondinau gwerthu, ardaloedd cyhoeddus, ffyrdd mynd a dod ac ati)
- Gofynion o ran trydan
- Manylion y cyflenwad trydan o'r prif rwydwaith a sut i gyrraedd ato
- Lleoliad gwifrau trydan uwchben neu geblau tanddaear sydd eisoes ar y safle
- Amodau amgylcheddol
- Sefyllfa'r trydan fel y'i diffinnir yn BS 7909
- Gofynion trydan mewn argyfwng
- Amserlen gofynion trydan
- Defnyddio generaduron
- Daearu
- Llwybr ceblau trydan dros dro, uwchben neu danddaear
- Ynyswyr y prif gyflenwad sy'n rheoli'r cyflenwadau trydan i oleuadau'r llwyfan, y sain, effeithiau arbennig, goleuadau argyfwng ac offer codi
- Cyflenwadau trydan arbennig ar gyfer rhai mathau o offer e.e. offer o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, hoists, offer symudol ac ati
- Gofynion trydan goleuadau argyfwng ac arwyddion Exit
- Cyflenwadau trydan offer arlwyo, mannau cymorth cyntaf, yr ystafell rheoli digwyddiadau brys, camerâu CCTV ac ati
- Cyflenwadau trydan ar gyfer gwres neu offer aerdymheru
- Sicrhau nad oes pobl heb ganiatâd yn mynd at y gosodiadau trydan

- Defnyddio a/neu integreiddio ffynonellau trydan adnewyddadwy fel celloedd solar neu drydan gwynt ac offer cysylltiedig fel gwrthdröyddion
- Defnyddio offer sy'n gweithio â batris (e.e. offer cyfathrebu radio ar gyfer staff y digwyddiad)

https://www.hse.gov.uk/event-safety/electrical-safety.htm

## Cyfeiriadau

- Dylunio'r lleoliad a'r safle

  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/contents

- Cyfrifo faint o bobl gaiff fod mewn mannau ymgynnull

  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/contents

- Strwythurau dros dro y gellir eu tynnu i lawr (TDS) – llwyfannau, seddau, marquees ac ati

  https://www.hse.gov.uk/event-safety/temporary-demountable-structures.htm

- Diogelwch trydan

  https://www.hse.gov.uk/event-safety/electrical-safety.htm

- Cyflwr y ddaear a thopograffeg y safle

  https://www.hse.gov.uk/event-safety/venue-site-design.htm#suitability

- Safonau Technegol ar gyfer Lleoliadau Adloniant

  Technical Standards 2015 A2 Technical Conditions C ABBT+CIEH+DSA+IOL+TT

# Pennod Pedwar.

## Rhoi Gair ar Bapur

A chithau'n gyflogwr neu'n berson hunangyflogedig, rydych yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Gallwch ddirprwyo'r dasg i rywun cymwys ond yn y pen draw, chi sy'n gyfrifol.

Os oes gan eich busnes lai na phum gweithiwr, nid oes raid i chi wneud cofnod ffurfiol o'ch asesiad o'r risgiau iechyd a diogelwch a all godi o'u gwaith. Fodd bynnag, dylech chi (a'r gweithwyr) fod yn ymwybodol o'r risgiau ac o'r camau rydych chi wedi'u cymryd i'w dileu neu eu rheoli. Yn ein profiad ni, faint bynnag o weithwyr sydd gennych, mae'n ddoeth gwneud nodyn swyddogol o'r risgiau a chofnodi'ch asesiadau.

### Polisi Iechyd a Diogelwch:

Mae polisi iechyd a diogelwch yn dweud sut y byddwch yn rheoli iechyd a diogelwch yn eich busnes. Dylai nodi'n glir pwy sy'n gwneud beth, sut a phryd.

https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/policy/index.htm

## Asesiadau Risg:

Ni ddylai asesiadau risg fod yn fater o greu gwaith papur diddiwedd. Dylent fod yn glir ac yn syml, gan nodi camau addas i reoli risgiau yn eich sefydliad a chanolbwyntio ar y rheiny.

https://www.hse.gov.uk/risk/controlling-risks.htm

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Asesiad Risg a Datganiad Dull? Mae asesiad risg yn archwilio'r hyn, yn eich gwaith, a allai wneud niwed i bobl, fel y gallwch bwyso a mesur a ydych yn ddigon gofalus neu a ddylech wneud mwy.

Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod gennych ddatganiad dull ar gyfer diogelwch. Mae'n disgrifio sut yn union y dylid gwneud tasg mewn ffordd ddiogel a heb beryglu iechyd. Mae'n cynnwys yr holl risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg a'r camau y mae angen eu cymryd i reoli'r risgiau hynny. Mae hyn yn eich galluogi i gynllunio'r dasg yn briodol a darparu unrhyw adnoddau angenrheidiol.

## Asesiad Risgiau Tân:

O dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 mae'n ofyniad cyfreithiol cynnal asesiad risg tân ym mhob mangre, bron, lle gallai pobl fod yn gweithio.

Rhaid iddo nodi'r hyn a allai achosi tân yn y gweithle, pwy a allai ddioddef niwed a'r hyn sy'n angenrheidiol i reoli'r risg.

Gall eich 'person cyfrifol' penodedig ysgrifennu hwn neu gallwch ddefnyddio ymgynghorwyr arbenigol.

https://www.gov.uk/workplace-fire-safety-your-responsibilities/fire-risk-assessments

## Asesiad Risg Covid:

Cyn ailddechrau'ch gweithgareddau, rhaid cynnal asesiadau risg cynhwysfawr sy'n benodol i'r gweithgareddau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â nhw. Gallai hyn fod ar gyfer prosiect cymunedol, dosbarth syrcas neu gynhyrchiad mawr. Beth bynnag fydd y gweithgaredd, mae'n bwysig eich bod yn gallu dangos eich bod wedi ystyried yr holl faterion isod:

- Pellter cymdeithasol (corfforol)
- Trefniadau glanhau
- Atal heintiau mewn stiwdios ac ystafelloedd ymarfer
- Golchi dwylo a hylendid anadlol

## Adroddiadau am Ddamweiniau / Digwyddiadau:

O dan gyfraith iechyd a diogelwch mae'n rhaid i chi gadw cofnod o ddamweiniau, digwyddiadau a chlefydau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Yn ogystal, mae angen rhoi gwybod i'r HSE am rai penodol o dan RIDDOR.

Bydd y cofnodion hyn yn helpu i ganfod patrymau damweiniau neu ddigwyddiadau yn eich sefydliad. Gall fod angen y cofnodion hyn ar gwmnïau yswiriant os bydd hawliad yn gysylltiedig â'r gwaith.

https://www.hse.gov.uk/toolbox/managing/reporting.htm

## Cyfraith Iechyd a Diogelwch

Os ydych yn cyflogi rhywun, mae'n rhaid i chi naill ai arddangos y poster yn eich gweithle neu roi copi i bawb rydych yn eu cyflogi.

https://www.hse.gov.uk/pubns/books/lawposter.htm

# Pennod Pump.

## Cydymffurfio â'r Gofynion o ran COVID

Mae sefydliadau celfyddydol ym mhedwar ban byd yn teimlo effaith y coronafeirws a'i oblygiadau i'w cwmnïau nhw. Nid oes neb yn gwybod sut olwg fydd ar sioeau mewn byd ar ôl COVID-19.

Gyda chanllawiau'r llywodraethau'n newid trwy'r amser a bygythiad o ail / drydedd / bedwaredd don ac ati, mae'n anodd gweld sut y gallwn ni fyth fynd yn ôl i redeg syrcas fel o'r blaen. Hyd yn oed nawr, ar ôl cael rhywfaint o eglurder yn Lloegr, rydym yn dal ar bigau'r drain yn disgwyl i Lywodraeth Cymru benderfynu beth fydd y cyfyngiadau ar gynulleidfaoedd a pherfformwyr, ac a fyddant yn wahanol. Hyd yn oed wedyn, bydd y gynulleidfa'n llai am y dyfodol rhagweladwy er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cadw pellter.

Mae yna rai erthyglau a gwybodaeth ragorol ar wefannau gwahanol gyrff yn y diwydiant, yn rhoi'r cyngor a'r arweiniad diweddaraf (gweler isod). Ond mae bob amser yn werth i chi gadw golwg ar wefannau'r llywodraeth gan y gall y sefyllfa newid mor gyflym. Mae hefyd yn bwysig cofio nad yw popeth a ganiateir yn Lloegr yn cael ei ganiatáu yng Nghymru o reidrwydd. Felly mae bob amser yn well cadw golwg ar wefannau'r ddwy lywodraeth i weld y canllawiau ac, yn bwysicach, y ddeddfwriaeth.

Mae'n hanfodol i sefydliadau fod yn gallu addasu i'r canllawiau sy'n newid yn barhaus. Yn ffodus, rydyn ni fel diwydiant wedi hen arfer gwneud hynny!

Mae pawb ohonom yn gwybod am y camau allweddol y dylid eu cymryd ond, yn aml, nid yw hynny'n ymarferol i'n diwydiant ni ac felly mae angen i ni edrych i weld beth yw'r ffordd orau o addasu'r canllawiau er mwyn iddynt weithio ar gyfer y cwmni a'i gynulleidfa. Wedi'r cyfan mae'n hanfodol bod y gweithwyr a'r gynulleidfa yn ffyddiog eich bod yn gofalu am eu diogelwch nhw ac eraill.

## Safonau Hylendid:

Mae disgwyl safonau hylendid uchel ym mhob lleoliad/ adeilad ac mae'n rhaid bod o ddifrif am hyn er mwyn i'r diwydiant allu symud yn ei flaen. Bydd angen i'r trefnwyr sicrhau y gellir cyflawni'r gweithgareddau'n ddiogel, gan sicrhau hylendid. Mae trefniadau glanhau ychwanegol, staff ychwanegol a chau mannau cyffredin i gyd yn enghreifftiau o gamau y mae cwmnïau yn eu cymryd.

Mae canllawiau manwl i'w gweld ar wefan llyw.cymru ond, yn gyffredinol, dylid ystyried bod rhai o'r camau isod yn arferion gweithio da:

- Gofalu bod arwynebau caled a rhai sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd (er enghraifft rheiliau, dolenni drysau) yn cael eu glanhau'n amlach.
- Rhaid bod gennych gyflenwadau PPE priodol a digon o staff er mwyn glanhau mannau cyffredin sawl gwaith y dydd.
- Rhaid bod gennych ddigon o gyflenwadau glanhau a hylif diheintio dwylo i gadw'r amgylchedd gweithio yn ddiogel trwy ei lanhau sawl gwaith y dydd.
- Defnyddio arwyddion a phosteri i godi ymwybyddiaeth o dechneg dda ar gyfer golchi dwylo, yr angen i olchi dwylo yn amlach, i osgoi cyffwrdd â'ch wyneb ac i besychu neu disian i hances bapur fydd yn cael ei rhoi'n ddiogel yn y bin, neu i'ch braich os nad oes hances bapur ar gael.
- Darparu hylif diheintio dwylo mewn sawl man hygyrch yn ogystal ag mewn ystafelloedd ymolchi. Dylid ystyried defnyddwyr cadeiriau olwyn wrth benderfynu ble y dylid gosod y rhain.
- Gosod canllawiau clir ar gyfer defnyddio a glanhau toiledau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân ac y cedwir pellter cymdeithasol hyd y bo modd
- Gwneud mwy o lanhau mewn ardaloedd prysur.
- Darparu mwy o gyfleusterau gwastraff a chasglu sbwriel yn amlach.
- Darparu cyfleusterau sychu dwylo – naill ai dywelion papur neu sychwyr trydan.

## Atal heintiau mewn stiwdios ac ystafelloedd ymarfer:

- Rhaid diheintio pob darn o offer therapi corfforol bob tro y defnyddir ef. Ni ddylai perfformwyr ymgynnull mewn ystafelloedd therapi corfforol na champfeydd
- Dylid neilltuo digon o amser i lanhau mannau sy'n cael llawer o ddefnydd yn drwyadl.
- Mae angen glanhau pethau y mae llawer o bobl yn cyffwrdd â nhw yn drylwyr ac yn rheolaidd e.e. barrau ymarfer, botymau lifftiau, dolenni drysau, peiriannau llungopïo a ffacs, rheiliau grisiau, ac ystafelloedd ymolchi / ystafelloedd gwisgo

Cofiwch bob amser gynnwys y rhain mewn asesiad risg fel bod gennych gofnodion clir o'ch bwriadau a bod y rhain yn cael eu cyflawni.

## Cadw Pellter Cymdeithasol:

Bydd ar staff a mynychwyr fel ei gilydd angen sicrwydd bod ystyriaeth drwyadl wedi'i rhoi i'r holl berfformiadau / gweithgareddau er mwyn bod yn siwr eu bod yn ddiogel. Bydd rhai pobl yn poeni mwy am hyn nag eraill, ond mae'n debygol y bydd yn ffactor o bwys wrth benderfynu a fydd pobl yn dod yn ôl eto ai peidio!

Rhaid ystyried natur y digwyddiad a dyluniad y gofod er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys camau i reoli llif pobl (yn cynnwys staff yn ogystal â mynychwyr) a'u hymddygiad. Yn ôl canllawiau llyw.cymru:

- Dylid sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol (2 fetr) hyd y bo'n ymarferol – cynlluniwch eich rhaglen weithgareddau gan feddwl am y canllawiau cyfredol.
- Os yw'ch gweithgaredd yn galw am gyswllt corfforol agos (er enghraifft, dawns), dylech sicrhau fod mesurau lliniaru ar waith, fel cyfarpar diogelu personol (PPE). Os nad oes modd defnyddio PPE na mesurau eraill, dylid addasu'r perfformiad i osgoi cyswllt agos neu dylid rhannu'r rhai sy'n cymryd rhan yn 'glystyrau penodedig'.
- Defnyddiwch y grisiau, pan fo hynny'n ymarferol, gan osgoi defnyddio'r lifftiau. Os bydd rhaid defnyddio lifft, cytunwch ar y nifer fwyaf ddylai fynd iddo ar y tro, ac eglurwch hyn gan ddefnyddio arwyddion priodol.
- Rhowch system unffordd ar waith er mwyn cadw pellter cymdeithasol wrth symud o gwmpas yr adeilad neu'r man ymarfer.
- Gofalwch fod arwyddion a marciau llawr clir mewn ardaloedd lle cheir llawer o bobl.
- Gofalwch fod darpariaeth briodol ar gyfer anghenion pobl anabl.

## Defnyddio'r Lle sydd ar Gael:

Yn aml, gall llawer o bobl grynhoi o gwmpas toiledau neu ardaloedd cyffredin gan achosi tagfeydd, felly ystyriwch system fel un-i-mewn-un-allan ar gyfer y toiledau neu gau'r ardaloedd cyffredin yn llwyr.

Mae systemau unffordd yn ddull effeithiol o reoli llif pobl os ceir arwyddion addas a chlir. Mae marciau llawr yn ffordd ddefnyddiol a chlir o reoli mannau lle ceir llawer o fynd a dod, ond chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod mynychwyr yn eu dilyn! Gall systemau rhwystrau fod yn ffordd haws o farcio llwybrau i helpu pobl i gadw at reoliadau pellter cymdeithasol. Defnyddir y rhain gan amlaf os oes llawer o bobl yn mynd a dod ac nad yw'n hawdd gweld marciau llawr ac ati.

Ystyriwch sut y gellir rheoli mannau lle ceir tagfeydd fel desgiau cofrestru e.e. trwy gael pwyntiau hunanwasanaeth sy'n lleihau ciwiau a chyswllt rhwng pobl. Mae cwmnïau wedi dechrau cymryd gwahanol gamau i leihau tagfeydd fel sesiynau yr ydych yn eu harchebu / talu amdanynt ymlaen llaw fel y gellir gwahodd mynychwyr ar amseroedd penodol ac ati.

Fel y soniwyd, o dan rai amgylchiadau mae'n bosibl na ellir cadw pellter corfforol o 2m rhwng unigolion yn ystod hyfforddiant, ymarferion neu berfformiad trwy'r amser ac felly gellir ystyried sawl strategaeth wahanol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Sicrhau bod unigolion o fewn 2m i'w gilydd am cyn lleied o amser ag y bo modd. Gallai hyn gynnwys lleihau maint cast / grwp / dosbarth yn unol â maint yr ystafell.

- Os yw'n hanfodol i berfformwyr sy'n hyfforddi dorri canllawiau cadw pellter cymdeithasol, mae angen rhoi mesurau lliniaru ar waith megis cyfarpar diogelu personol (PPE), a sicrhau eu bod yn torri'r canllawiau cadw pellter am cyn lleied o amser â phosib.

- Defnyddio timau sefydlog neu 'glystyrau penodedig' o berfformwyr os na ellir defnyddio PPE.

Yn aml, bydd yr hyn a gyfrifir yn gysylltiad agos hanfodol mewn perfformiad yn agored i'w ddehongli. Os penderfynwch fod cysylltiad agos yn hanfodol, gofalwch eich bod yn hollol sicr y gallwch gyfiawnhau eich penderfyniad. Eich dogfennau ategol (asesiadau risg / datganiadau dull) fydd eich prawf eich bod wedi cymryd camau lliniaru. Felly gofalwch eich bod yn eu diweddaru yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

## Lle i Lai o Gynulleidfa:

Ar hyn o bryd, mae'n debyg y bydd llawer llai o bobl yn mynychu digwyddiadau, ni waeth pa gamau lliniaru eraill y byddwch wedi'u cymryd. Yn y pen draw, bydd nifer y bobl a gaiff ddod yn dibynnu ar faint y lle sydd gennych. Mae angen dilyn y rheoliadau cadw pellter corfforol a chadw at y nifer fwyaf o bobl y caniateir iddynt gyfarfod yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Fel y dywed Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, mae angen:

- Sicrhau bod maint y gynulleidfa, y trefniadau a'r perfformiadau a gaiff eu llwyfannu yn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol – dylai asesiadau risg ystyried yn benodol y terfyn capasiti ar gyfer perfformiad penodol ar ôl i fesurau rhesymol gael eu rhoi ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws, ac ar ôl cynnwys y gofyniad i gadw pellter corfforol a'r gallu i reoli ymddygiad y gynulleidfa

- Lleihau capasiti safle neu leoliad a chyfyngu ar nifer y tocynnau a werthir i swm sy'n sicrhau y gellir cadw pellter corfforol o 2m ar bob adeg. Bydd angen i berfformiadau am ddim, agored, heb docynnau a heb ffiniau ddangos bod dull rhesymol ar waith ar gyfer rheoli niferoedd os bydd gormod o bobl yn dechrau cyrraedd, a bod mesurau priodol ar waith i sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol ar bob adeg

- Rheoli amserlenni perfformiadau fel nad yw cynulleidfaoedd ar gyfer perfformiadau gwahanol yn defnyddio'r safle neu'r lleoliad ar yr un pryd mewn ffordd sy'n golygu na ellir cadw pellter cymdeithasol, a sicrhau bod mesurau glanhau digonol ar waith.

- Sicrhau bod asesiadau risg yn ystyried diogelwch gweithwyr yn ofalus, yn enwedig y rheini sy'n gweithio'n agos gyda nifer mawr o aelodau o'r cyhoedd neu'r gynulleidfa.

- Rheoli'r risg bod alcohol yn effeithio ar y gallu i gadw pellter cymdeithasol drwy reoli'r alcohol a gaiff ei brynu neu ei yfed pan fydd angen.

- Ystyried lle y gallai torfeydd ymgynnull fel mewn mynedfeydd ac allanfeydd, meysydd parcio, cyfleusterau golchi dwylo a thoiledau, ardaloedd aros, bariau a bwytai ac mewn ardaloedd sy'n agos at ardaloedd perfformio, a rhoi mesurau priodol ar waith i reoli pobl wrth iddynt symud ac i sicrhau eu bod yn cadw pellter corfforol.

- Ymgynghori ag awdurdodau perthnasol a chael cyngor arbenigol ar y ffordd orau o werthuso effaith, datblygu strategaethau lliniaru a chydlynu asiantaethau allanol perthnasol os bydd angen.

## Taliadau Digyswllt

Er nad yw hon yn dechnoleg hollol newydd, bu llawer mwy o angen am daliadau digyswllt o ganlyniad i'r pandemig. Dylid adolygu sawl maes lle defnyddir arian parod i weld a ellir defnyddio dulliau digyswllt yn unig e.e. prynu tocynnau, taliadau ac arlwyo a lluniaeth:

- Lle bo modd, dylai mynychwyr brynu tocynnau ar-lein a defnyddio e-docynnau.
- Os oes angen gwerthu tocynnau ar y drws, dylid sicrhau y gellir gwneud taliad digyswllt.
- Dylai mannau talu / offer talu gael eu cynnwys yn y trefniadau glanhau ychwanegol.
- Dylid cadw pellter cymdeithasol wrth wirio tocynnau. Dylid ystyried defnyddio sgriniau i greu rhwystr corfforol yn y swyddfa docynnau ac yn y stondinau gwerthu.
- Rheoli mynedfeydd ac allanfeydd lle gall tagfeydd ddigwydd.
- Ystyried archebu ar-lein a 'gwasanaeth gweini i'ch sedd' yn ystod egwyliau fel bod llai o bobl yn ymgasglu wrth y bariau a'r stondinau gwerthu. Ystyried gwerthu nwyddau ar lein yn unig.

**Dylai'r staff ddal i gadw pellter cymdeithasol yn ystod perfformiadau er mwyn lleihau cyfleoedd i drosglwyddo'r haint.**

- Defnyddio ystafelloedd rheoli sain a goleuadau os ydynt ar gael, bod y tu ôl i wydr a monitro trwy seinyddion [speakers] (yn achos sain). Dim ond y bobl angenrheidiol ddylai gael mynd i'r ystafell a dylai unrhyw bobl yn yr ystafell reoli gadw pellter cymdeithasol o 2m yn unol â maint yr ystafell
- Creu sgrin (e.e. sgrin gauze nad yw'n rhwystro sain) o amgylch desgiau sain a goleuo i ddod rhwng y tîm sain a'r gynulleidfa neu aelodau eraill o'r criw.
- Os yw'r ddesg sain yn agos at seddau'r gynulleidfa, dylid ystyried gadael y rhes agosaf o seddi yn wag
- Glanhau'n rheolaidd, er enghraifft, desgiau sain a goleuo, microffonau a phecynnau batri
- Caniatáu amser ychwanegol i lanhau yn ystod y 'get-in' a'r 'get-out'

https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol

**Bydd nifer o heriau i'w hwynebu wrth geisio lleihau trosglwyddiad y feirws trwy gyfrwng props ac offer a dylid ystyried y camau a ganlyn:**

- Annog pobl i olchi eu dwylo'n amlach a darparu mwy o gyfleusterau golchi dwylo i weithwyr neu hylif diheintio dwylo lle nad yw hynny'n ymarferol.
- Osgoi rhannu eitemau personol fel ffonau, gwefryddion [chargers], pinnau ysgrifennu a bod perchnogion yn cymryd cyfrifoldeb am ddiheintio eu hoffer personol yn rheolaidd.
- Osgoi rhannu offer proffesiynol os oes modd a rhoi labeli enwau ar offer i helpu i wybod pwy sydd i fod i'w defnyddio.

- Sicrhau bod radios a phensetiau neu glustffonau ychwanegol ar gael, gan benodi aelod o bob tîm i fod yn gyfrifol amdanynt trwy gydol y cynhyrchiad, a sicrhau eu bod yn cael eu glanhau'n briodol os nad rhai un-tro ydynt.
- Os oes rhaid rhannu offer, dylid eu diheintio'n rheolaidd (gan gynnwys unrhyw gasys pacio, dolenni, props, cadeiriau ac ati)
- Ystyried cyfyngu ar nifer y cyflenwyr wrth logi offer. Dylid trafod cyfrifoldeb am lanhau offer a gaiff eu llogi gyda'r cyflenwyr.
- Glanhau offer, twls neu gyfarpar arall wedi'u llogi pan gyrhaeddant a chyn eu defnyddio gyntaf. Os bydd offer ac ati yn cyrraedd cyn bod angen eu defnyddio, cadwch nhw mewn lle glân a'u glanhau cyn eu defnyddio gyntaf.
- Trefnu mannau i gasglu a gollwng offer os oes modd, yn hytrach na phasio offer fel props a mics o law i law, a gofalu eu glanhau cyn ac ar ôl eu danfon.
- Peidio â chaniatáu i bobl eraill gyffwrdd ag offer, props, offerynnau, y set na phethau eraill a ddefnyddir gan berfformwyr.
- Cymryd gofal wrth drin offer trwm, yn cynnwys:
  - ailystyried y lle sydd ar gael rhag i bobl orfod gweithio'n agos at ei gilydd (e.e. defnyddio mwy o lorïau i gludo nwyddau);
  - gwneud mwy o ddefnydd o offer trin mecanyddol (fel peiriannau fforchgodi) fel nad oes nifer fawr o weithwyr yn gweithio'n agos at ei gilydd (e.e. codi casys trwm a golygfeydd);
  - cadw at yr un parau os oes rhaid i ddau o bobl weithio'n agos at ei gilydd, er enghraifft, ar gyfer tasgau codi neu gynnal a chadw na ellir eu gwneud yn wahanol;
  - peidio â symud gweithwyr nac offer o gwmpas os nad oes raid;
  - os ydych yn rhannu offer, twls neu gerbydau, sicrhau bod y rhannau rydych yn cyffwrdd â nhw yn cael eu glanhau bob tro y defnyddir nhw.

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol

Bydd angen ystyried trefn y seddau yn y safle yn ofalus iawn fel y gellir cadw pellter cymdeithasol. Dylai hyn gynnwys y trefniadau cyrraedd ac ymadael yn ogystal â'r drefn yn ystod y perfformiadau os bydd aelodau'r gynulleidfa'n symud o gwmpas

## Dyma rai o'r egwyddorion allweddol i'w dilyn ar gyfer trefniadau eistedd:

- Dylai cynulleidfaoedd gael eu lleoli i eistedd fel unigolion neu grwpiau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig;
- Dylai'r unigolion a'r grwpiau hyn gadw pellter cymdeithasol o 2m rhyngddynt;
- Bydd angen goruchwylio ardaloedd cyffredin er mwyn sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol o 2m rhyngddynt ag unigolion a grwpiau eraill

- Dylid ystyried seddi i bobl anabl a lle i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn o fewn y trefniadau cadw pellter cymdeithasol gan roi sylw dyledus i gyfrifoldebau hygyrchedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Ymhlith y camau ychwanegol y bydd angen eu cymryd fel arfer mae:

- Darparu seddi mewn ffordd sy'n sicrhau y gall unigolion gadw pellter cymdeithasol a bod grwpiau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig yn cael eistedd gyda'i gilydd. Ystyried camau fel hyn:
  - darparu seddi cadw a rheoli cynlluniau seddi drwy systemau tocynnau neu â llaw er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol o 2m rhwng gwahanol grwpiau ac unigolion;
  - os na ddarperir seddi cadw, dylid gosod rhwystrau i wahanu seddi neu labelu seddi na ddylid eu defnyddio, neu ddefnyddio staff i helpu'r gynulleidfa i ddefnyddio seddi gan gadw pellter cymdeithasol;
  - disgwylir i westeion gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain a lles eraill a chadw pellter cymdeithasol yn yr awditoriwm. Serch hynny, dylid defnyddio staff i sicrhau y cedwir at y mesurau hyn. (Gall hyn gynnwys arwyddion a chyhoeddiadau, mwy o wirio a goruchwylio, yn enwedig cyn ac ar ôl pob perfformiad);
- Pnnog aelodau'r gynulleidfa i beidio â dod â bagiau na chotiau i'r awditoria os oes modd er mwyn cadw'r seddi'n glir.
- Caniatáu egwyliau hirach fel y gall aelodau'r gynulleidfa fynd i'r toiledau yn ddiogel
- Atgoffa gwesteion sy'n dod â phlant gyda nhw eu bod yn gyfrifol am eu goruchwylio trwy'r amser ac y dylent ddilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol.
- trefnu mannau wedi'u dynodi'n glir lle gall staff y safle neu'r lleoliad roi cyngor neu gymorth i westeion gan gadw pellter cymdeithasol.
- glanhau awditoria yn aml iawn ac amserlennu perfformiadau i ganiatáu digon o amser i wneud y gwaith glanhau angenrheidiol cyn i'r gynulleidfa nesaf gyrraedd.
- sicrhau canllawiau clir ynghylch defnyddio a glanhau cyfleusterau lles er mwyn:
  - sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân ac y cedwir pellter cymdeithasol hyd y bo modd; er enghraifft, trwy leihau nifer yr wrinalau, y ciwbiclau, y basnau ymolchi a'r sychwyr dwylo sydd ar gael;
  - ystyried y patrymau tebygol o'u defnyddio yn ystod perfformiad, er enghraifft yn ystod egwyliau, ac addasu amseroedd cyrraedd a gadael i'w gwneud yn llai tebygol y bydd llawer o bobl yn defnyddio'r cyfleusterau ar yr un pryd;
  - annog gwesteion a'r gynulleidfa i gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain a lles pobl eraill.

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol

Er mwyn cadw pellter cymdeithasol pan fydd pobl yn symud o gwmpas y safle neu'r lleoliad yn ystod perfformiadau, bydd angen cymryd y camau isod gan amlaf

https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol - adran-55138

- cyfyngu ar nifer y mynedfeydd a'r allanfeydd a'u rheoli i atal pobl rhag ymgynnull yno
- addasu amserlenni perfformiadau fel y gellir glynu at drefniadau cadw pellter cymdeithasol a chyfundrefnau glanhau priodol. Er enghraifft, trefnu bod digon o amser rhwng perfformiadau i leihau'r posibilrwydd y bydd gwahanol gynulleidfaoedd yn dod yn agos at ei gilydd ac i roi amser i lanhau.
- defnyddio lle y tu allan i'r safle neu'r lleoliad ar gyfer ciwio os oes modd ac os yw'n ddiogel gwneud hynny. Dylid rheoli ciwiau y tu allan i sicrhau nad ydynt yn achosi risg i unigolion na busnesau eraill nac yn creu risgiau diogelwch ychwanegol. Gellir gwneud hyn, er enghraifft, trwy gyflwyno systemau ciwio gan gadw pellter corfforol, cael staff i gyfeirio ymwelwyr neu'r gynulleidfa, a dioigelu ciwiau rhag traffig trwy eu cyfeirio y tu ôl i strwythurau parhaol fel dodrefn stryd, raciau beiciau, bolardiau neu drwy godi rhwystrau.
- cydweithio â'ch awdurdod lleol neu'ch landlord i ystyried effaith eich prosesau, er enghraifft, ciwiau, ar fannau cyhoeddus fel strydoedd a meysydd parcio cyhoeddus.
- lleihau achosion lle gallai fod angen i bobl giwio. Er enghraifft:
  - wrth fynedfeydd ac allanfeydd yr adeilad;
  - wrth risiau symudol, grisiau a lifftiau;
  - wrth giosgau tocynnau, mannau gwerthu a phwyntiau dilysu tocynnau;
  - ym mynedfeydd ac allanfeydd yr awditoria; ac
  - mewn toiledau ac ystafelloedd ymolchi.
- lle bo modd, neilltuo staff i reoli ciwiau a rheoli gallu gwesteion i fynd a dod rhwng gwahanol rannau'r safle.
- sicrhau eich bod wedi cytuno ar weithdrefnau priodol ar gyfer gwacáu'r safle ac ar fannau ymgynnull priodol os bydd argyfwng
- annog ymwelwyr i ddefnyddio hylif diheintio dwylo neu gyfleusterau golchi dwylo wrth iddynt gyrraedd y safle neu'r lleoliad.
- defnyddio systemau rheoli ciwiau a marcio systemau llif unffordd trwy'r safle neu'r lleoliad fel bod llai o fannau cyswllt. Er enghraifft, cyflwyno systemau unffordd trwy'r ardaloedd cyffredin, fel nad oes raid i westeion basio'i gilydd wrth fynd a dod i'r mannau hyn.
- helpu ymwelwyr i gadw pellter cymdeithasol trwy roi marciau sydd i'w gweld yn glir ar hyd y llawr neu'r waliau, gan ddweud wrth bobl am gadw 2m ar wahân.
- sicrhau bod unrhyw newidiadau i drefniadau rheoli mynedfeydd, allanfeydd a chiwio yn ystyried addasiadau rhesymol i'r rhai y mae arnynt eu hangen, gan gynnwys ymwelwyr anabl. Er enghraifft, cynnig llwybrau a mannau parcio ar gyfer cwsmeriaid anabl. '
- ystyried anghenion neilltuol pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, fel rhai sydd â nam ar eu clyw neu nam ar eu golwg.

- gall fod angen stiwardiaid/swyddogion ychwanegol mewn mannau allweddol lle mae llawer o bobl yn dod ynghyd a dylid symud unrhyw rwystrau a allai achosi tagfeydd wrth allanfeydd. Dylid ystyried hyn fel rhan o gynllun y digwyddiad ar gyfer rheoli torfeydd, gan ymgynghori â'r rhai sy'n gyfrifol am reoli diogelwch, stiwardio ac ati.
- rhaid ystyried rheoli mannau lle mae torf yn ymgasglu, fel mannau lle mae pobl yn aros i wylio arddangosiadau, fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.
- cyfyngu ar gyfleoedd gwesteion i ddod i gysylltiad â pherfformwyr a staff cymorth, er enghraifft trwy:
  - defnyddio staff diogelwch y safle i gadw'r mannau ger drysau'r llwyfan yn glir cyn ac ar ôl perfformiad fel y gall perfformwyr a gweithwyr eraill gyrraedd a gadael yn ddiogel;
  - peidio â chaniatáu i ymwelwyr fynd i gefn y llwyfan;
  - peidio â chaniatáu i bobl ofyn i berfformwyr am lofnodion na ffotograffau.

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol

## Cyfeiriadau

- Trefniadau glanhau a hylendid

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol
- Atal heintiau mewn stiwdios ac ystafelloedd ymarfer

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol
- Ymarferion a pherfformiadau

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol
- Hyfforddiant

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol
- Sain a goleuo

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol
- Trafod props, offerynnau cerdd, offer technegol a phrosiectau eraill

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol

- Rheoli cynulleidfaoedd a pherfformiadau

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar- gyfer-dychwelyd-yn-raddol

- Trefniadau eistedd a defnyddio mannau cyffredin (yn cynnwys cyfleusterau lles)

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol

- Mynedfeydd, allanfeydd a rheoli llif pobl

  https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol

## Dogfennau defnyddiol:

https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol?_ga=2.63135847.994585363.1607205887-44151656.1607205887#section-55138

https://eventsindustryforum.co.uk/images/documents/EIfDCMS-COVID-19-Working-Safely-24-September-2020.pdf

https://www.eventsindustryforum.co.uk

# Diolchiadau.

## Ariannwyd y Prosiect hwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru

‘Syrcas Saff’ yw teitl Prosiect Iechyd a Diogelwch ar gyfer sector y syrcas yng Nghymru. Fe’i darperir gan NoFit State Circus a’i phartneriaid a’i hariannu gan gynllun Grantiau Hyfforddi Bach Cyngor Celfyddydau Cymru.

Hoffem ddiolch i’r sefydliadau a ganlyn ym myd y syrcas yng Nghymru am eu partneriaeth a’u cyfraniad at y prosiect:

- Circus Eruption
- Citrus Arts
- Organised Kaos
- Pontio
- Syrcas Byd Bychan (Small World Theatre)
- Upside Down Circus

Llun y clawr: Mark Robson

Mae’r holl wybodaeth yn gywir ym mis Rhagfyr 2020. Gall fod angen ei newid yn y dyfodol